


CANU GWERIN (FOLK SONG)

17 - 1994

CYMDEITHAS
ALAWON GWERIN
CYMRU

THE WELSH
FOLK-SONG
SOCIETY





CYHOEDDIADAU

Hen Alawon (carolau a cherddi)

gol. Phyllis Kinney a Meredydd Evans £5.50

Canu'r Cymry

gol. Phyllis Kinney a Meredydd Evans £2.75

Canu'r Cymry II

gol. Phyllis Kinney a Meredydd Evans £2.75

Caneuon Gwerin i Blant

gol. Phyllis Kinney a Meredydd Evans £2.95

Lleisiau'r Werin

£1.50

Lleisiau'r Werin 2

gol. Rhidian Griffiths £2.50

Lleisiau'r Werin 3

gol. Rhidian Griffiths £2.75

Darlithiau Coffa Amy Parry-Williams:

1990 - *Canu Jim Cro* / Meredydd Evans £1.00

1991 - *Ffiniau* / Rhidian Griffiths £1.00

1992 - *Canu at Iws* / D. Roy Saer £1.50

1993 - *Caneuon llafar gwlad ac Iolo a'i fath* / Daniel Huws £1.50

Dyblygion



178221



9437PA2079

CANU GWERIN

ISSN 0967-0599

(FOLK SONG)

17 / 1994

CYLCHGRAWN CYMDEITHAS ALAWON GWERIN CYMRU
JOURNAL OF THE WELSH FOLK-SONG SOCIETY

Ar lafar gwlad	Siwsann George	3
Cerddoriaeth werin Nantgarw	Ceinwen H. Thomas	6
Contraboncin, Pigransi	Phyllis Kinney	18
Hwbwb yng nghymoedd Taf a Rhondda	E. Wyn James	28
Y byw a'r segur yn <i>repertoires</i> cynheiliad canu gwerin	Tecwyn Vaughan Jones	42
Bardd Treflys a'r Palm Oil	Tegwyn Jones	48
Adolygiad	Dafydd Ifans	51
Hela'r Draenog		53
Teyrnged		55

Y cyfranwyr biau hawlfraint eu cyfraniadau. Nid yw'r safbwyntiau a fynegir yn y Cylchgrawn o reidrwydd yn adlewyrchu barn y Golygyddion na'r Gymdeithas.
Contributions are the copyright of the contributors. Opinions expressed in the Journal do not necessarily reflect the viewpoints of the Editors or the Society.

Cysodi: Gair am Air
Argraffu: Argraffdy Arfon
Llun y Clawr: Siwsann George (gweler tud 3)

AR LAFAR GWLAD

Siwsann George

Rhyfeddod parhaus i mi yw bod cymaint o berffeithrwydd wedi'i drosglwyddo i ni ar lafar gwlad. Nid cywrain mo clustiau'r dyddiau hyn, oherwydd wrth i mi sôn fy mod i newydd recordio cryno-ddisg i gwmni Saydisc, ymateb cyntaf nifer o'm cyfoedion yw meddwl fy mod i wedi dechrau canu "heavy metal", gan gamglywed yr "c" yn "t".

Egluro sydd raid, mai fel cwmni'n arbenigo mewn casglu tafodieithoedd ac arferion anarferol y sefydlwyd Saydisc yn 1965, a bod ei sefydlwyr wedi hen ddifaru dewis ei enw. Erbyn hyn, gyda chatalog gwyh o gerddoriaeth ethnig a chlasurol o bob ran o'r byd, mae gan Saydisc ddilyniant a pharch byd-eang at safon uchel ei gynyrchiadau. O ran y dewis o gerddoriaeth y mae Saydisc yn ei gynnig, gellir ei gymharu â chatalog cwmni arloesol Folkways a recordiodd Meredydd Ifans nôl yn 1954 yn yr Amerig. Yr un bwriad sydd yma, sef cyflwyno cerddoriaeth leiafrifol i gynulleidfa newydd.

Un peth a'm trawodd yn syth wrth dderbyn gwahoddiad Saydisc i recordio "TRADITIONAL SONGS OF WALES/CANEUON TRADDODIADOL CYMRU". Roedd y parch at ein traddodiad yn ddifffuant, ac erbyn i mi fynd am "wrandawriad", roedd yr uwch-gynhyrhydd, Gef Lucena, wedi gwrando ar nifer helaeth o recordiadau canu gwerin Cymraeg. Fy nheimplad cyntaf wrth arwyddo'r cytundeb oedd fy mod i'n cael "brêc" yn y byd recordio, heb orfod "gwerthu mâs" a chanu'n fwy "masnachol" er mwyn ennill llwyddiant. Ar y llaw arall, mae rhwydwaith dosbarthu Saydisc yn gryf yn rhyngwladol, felly does dim rhaid poeni fy mod i'n gwastraffu amser yn recordio albwm arall y mae llond dwm o bobl yn unig yn mynd i'w chlywed.

Y drydedd mewn cyfres sydd yma, gyda recordiadau Ray Fisher (Yr Alban) a Jo Freya (Lloegr) eisoes ar y farchnad. Ond, mae sefydliad canu gwerin cryf ac adnabyddus gan y ddwy wlad honno. Fy nhasg i a Roger Plater, cyfarwyddwr cerddorol y prosiect, oedd cydweithio â Saydisc i lunio darlun cynrychioladwy o ganu traddodiadol Cymru i gynulleidfa heb ymwybyddiaeth am Gymru a'i hiaith a'i diwylliant.

Yn bersonol, gallwn i fod wedi recordio dwy albwm ddwbwl o hoff ganeuon nad oeddwn i ddim wedi gallu cynnwys yn fy rhaglen nac ar fy recordiadau eisoes. Roedd dros gant yn dod i'r meddwl bron yn syth, cyn dechrau ymchwilio a chael fatgoffa o emau sydd yn aros ar dudalennau cyfrolau *Cylchgrawn* Cymdeithas Alawon Gwerin Cymru yn disgwyl dydd eu hatgyfodiad. Daeth y rhif i lawr i hanner cant, lawr i ddeugain, lan eto i hanner cant, ac yna - o'r penderfyniad poenus sy'n wynebu pob golygydd - lawr i dair ar hugain.

Un enghraifft o'r caneuon olaf i gael eu "gollwng" o'r casgliad oedd "Yr Eneth Glaf". Ei gadael oedd rhaid oherwydd:

1. Roedd y thema wedi'i chyffwrdd yn "Adar Mân y Mynydd" ac yn "Lisa Lân" ac 'roedd rhesymau eraill, ychwanegol, dros gadw'r rhain;
2. Roedd teulu alaw "Yr Eneth Glaf" sef "Y Dôn Fechan" yn cael ei gynrychioli gan "Blodau'r Flwyddyn".

Erbyn hyn, 'roedd Gef Lucena wedi dethol hefyd, wrth ddadansoddi yn ôl categorïau moddau cerddorol a themâu'r caneuon. Roedd yn ddiddorol gweld pa rai yr oedd e'n eu hystyried yn rhai nodweddiadol Gymreig. Roedd "Llongau Caernarfon" yn ddewis pendant ganddo o'r dechrau, ac er ei bod hi'n ddewis gennym ni hefyd, rhaid oedd atgoffa Gef mai alaw o Norwy yw hi - ond nid oedd hynny'n ddigon i'w wyro. Y ffaith yw ei bod hi'n rhan mor argyhoeddedig o'n traddodiad erbyn hyn. Gellir dadlau am Gymreigrwydd llawer o alawon eraill, e.e. dim ond ar ôl recordio "Yr Eneth gadd ei gwrthod" y sylweddolais fod un o ganeuon gwerin mwya poblogaidd y Cymry yn dwyn alaw Seisnig, sef, "There's love among the roses".

O'r diwedd, trwy gonsensws y dewiswyd y tair cân ar hugain terfynol, gan ystyried y pwyntiau canlynol:

- a) Amrywiaeth o bynciau/themâu;
- b) Amrywiaeth o gyweirnodau/moddau/ffurf/teuluoedd o donau;
- c) Croesdoriad o ganeuon heb eu recordio eisoes, a rhai mwy poblogaidd;
- ch) Amrywiaeth a chyfoeth ein diwylliant cynhenid yn ogystal â'i gysylltiadau amlwg â gwledydd eraill.

Wedi'r cyfan, darlun o Gymru a'i phobl, ddoe a heddiw, sydd yma, ac mae'n bwysig nodi hefyd nad oes unrhyw broblem ar ran Saydisc fod yr albwm yn gwbl ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg.

Dyma rai o nodweddion ein diwylliant a welir yng nghaneuon yr albwm:

SERCH (hapus/trist), e.e. "Gwcw Fach"/"Titrwm Tatrwm";

HIWMOR (poblogaidd/ffurf arbennig), e.e. "Hen Ferchetan"/"Yr Hen Wŷr Mwyn";

GWAITH (gwledig/diwydiannol), e.e. "Cainc yr Aradwr"/"Yr Insiwrans Agent";

YSGAFNDER (Plant/nonsens), e.e. "Bachgen bach o dincer";

NEWID CYMDEITHASOL, e.e. "Llangollen Market";

RHETHREG, e.e. "Hiraeth";

YR IAITH SAESNEG, e.e. "A Miner's Life".

Gwelir enghreifftiau hefyd o donau, mydr a chyweirnodau nodweddiadol o'r gerddoriaeth draddodiadol, ac enghraifft o gerdd dant, gyda fersiwn o "Torriad y Dydd" ar gainc "Nyth y Gwcw".

Y peth mwya trawiadol ynglŷn â'r albwm hon o'i chymharu â dwy gyntaf y gyfres yw mai prin yw'r caneuon Saesneg arri. Anodd oedd dod ar eu traws, yn enwedig rhai oedd crystal eu crefft a'u cynnwys â'r rhai

Cymraeg. Dwy gân, “A Miner’s Life”, a “Llangollen Market”, oedd yn ddigon cryf ac addas i’w cynnwys.

Roedd y dasg fwyaf nawr ar ysgwyddau Roger Plater, sef trefnu’r gerddoriaeth a hyfforddi’r cerddorion. Gwnaeth waith gwych, gan gynnwys fy hyfforddi i ganu eto ar ôl cael triniaeth ar y galon. Roedd angen cerddorion offerynnol profiadol ym maes canu gwerin Cymru. “The crwth, the crwth, and nothing but the crwth” oedd ein “catchphrase” ar un adeg pan oedd cael crwth a chrythor yn yr un lle, ac yna ’nghyd â’r cerddorion eraill, yn dipyn o gamp. O’r diwedd, roedd diolch i Stevie Wishart, crythor Aberjaber, a ddaeth nôl o Awstralia a chynnig benthg ei chrwth hi i Iolo Jones, ein ffidlwyr. Roedd rhaid cael telyn deires, felly Robin Huw Bowen amdani. Mae’r pibau Cymreig dan feistrolaeth Ceri Matthews, ac ymysg y cyfraniadau eraill, mae tipyn o gloecsio gan Catrin Defis.

Diolch fel arfer i hoelion wyth CAGC am eu cymorth gyda chyfieithiadau a nodiadau’r caneuon. Agor ffenest yn unig ar ein traddodiad y mae’r CD, ond mae’n bwysig bod y gwaith manwl a wnaed eisoes yng Nghymru yn cael ei drosglwyddo’n gywir ac i’r safon uchaf posib.

Wrth lansio’r CD ym mis Hydref, edrychaf ’mlaen at berfformio’r caneuon yn fyw - a cheisio rhoi’r un wefr i gynulleidfa ag a gafodd y casglwyr pan glywsant hwythau’r caneuon am y tro cyntaf. Dangos mor werthfawr yw’n caneuon gwerin - ac yn bennaf, mwynhau eu canu, fel y gwnaeth y bobl a’u lluniodd.

CERDDORIAETH WERIN NANTGARW

Ceinwen H. Thomas

Pentref bach, cryno, ar droed Mynydd Meio, oedd Nantgarw, yn chwarter olaf y ganrif ddiwethaf, yn y man lle'r oedd bwch cul rhwng Mynydd Meio a'r mynydd arall, Craig yr Allt. Trwy'r bwch hwn yr oedd Nant y felin yn ymwithio'n gynhyrfus i ymuno ag afon Taf. Y rhain, y nant a'r bwch, a goffeir yn yr enw Nantgarw. Y tu ôl i'r pentref yr oedd y cnél - Camlas Morgannwg - yn gwasgu'n dynn wrth ei gefn ac afon Taf yn ysgubo'n hanner cylch heibio iddo, heb adael ond lle i'r heol trwy'r cwm o Gaerdydd i Bontypridd a Merthyr Tudful i ymwithio rhyngddi a thai gwaelod y pentref.

Cymraeg oedd unig iaith y rhan fwyaf o'r bobl yn eu maint, a'r Wenhwysseg yn bersain a chyfoethog ar bob tafod. Ond yr oedd y Saesneg eisoes wedi cael ei throed i mewn o ddau gyfeiriad, yn gyntaf, gyda dyfodiad y "Peipyrz", fel y gelwid hwy yn y pentref, sef y Saeson o ardal y "Potteries" yn swydd Stafford a oedd wedi dod i mewn, yn gyntaf yn 1813, gyda William Billingsley, i weithio yn y ffatri lestri enwog ac a arhosodd i wneud llestri pridd a phibau clai gyda theulu Pardoe. Mewn ardal a fu'n uniaith Gymraeg am ran fawr o'r ganrif, ni ddysgodd neb o'r rhain, na'u disgynyddion, air o Gymraeg erioed - gorchest na all neb ond Saeson ei chyflawni! Erbyn chwarter olaf y ganrif, yr oedd ffynhonnell arall, beryclach, gan y Saesneg, yn gweithredu yn yr ardal, sef y Taffs Well Board School, a oedd wedi ei sefydlu o ganlyniad i ddeddf addysg 1870, ac yr oedd hon, trwy gymorth y "Welsh Not" a'r gansen, yn prysur gledro iaith y "Peipyrz" i mewn i blant Cymraeg yr ardal, ac a lwyddodd i sicrhau, erbyn ugeiniau'r ganrif bresennol, mai bach iawn o blant fy nghenedlaeth i a gafodd etifeddu iaith y fro er bod eu rhieni'n dal i'w harddel yn gadarn ymhlith eu cyfoedion a'r genhedlaeth hŷn, a hyd yn oed â'r plant hynny, fel fy mrawd a minnau, a oedd wedi cael ei hetifeddu.

Ond bywyd Cymraeg sicr - i bob golwg - oedd bywyd y pentref a'r ardal yn chwarter olaf y ganrif ddiwethaf, yn troi o gwmpas gweithgareddau crefyddol a diwylliannol y cylch. Y tŷ cwrdd oedd canolfan y rhan fwyaf a'r mwyaf amlwg o'r gweithgareddau hyn, gan mai bach iawn o'r Cymry oedd heb gysylltiad ag ef, naill ai fel aelodau neu fel gwrandawyr. Gyda llaw "tŷ cwrdd", yr hen enw am addoldy Anghydfurfiol, oedd yr unig enw yn ein rhan ni o Gwm Taf am yr hyn sydd wedi mynd yn "gapel" ar draws Cymru bellach. I ni, capel anwes i eglwys y plwyf oedd (ac yw, i rai fel myfi) "capal".

Y Gymanfa Ganu. Digwyddiad pwysig ym mywyd mynychwyr tai cyrddau Annibynnol yr ardal: Y Groes-wen, Nantgarw (merch eglwys i'r Groes-wen), Glandŵr Taf ym mhentref Glan-llyn, a Bethlehem, Gwaelod-y-Garth, oedd y Gymanfa Ganu a gynhelid ar ddydd Gwener y Grogolith. Un eglwys Fethodistaidd oedd yn y cylch - Tabor, ac yr oedd Tabor yn ymuno â chymanfa yng Nghaerdydd. Yr oedd Tabor, neu y Tabor, fel y dywedem ni, yn y pentref a oedd eisoes wedi cael enw Saesneg: Taffs Well, ar ôl y ffynnon wrth yr afon, Ffynnon Daf (Ffynnon Dæf yn y dafodiaith leol). I'r brodorion lleol, Trelywy oedd enw'r pentref, sef "tref" a "Llywy" (enw merch), ond erbyn canol y ganrif bresennol, collwyd Trelywy ac aeth y pentref a'r ffynnon yn Ffynnon Taf, dan ddyllanwad mewnddyfodiaid a gwybodusion y Cyngor lleol. Y mae enwau lleoedd Cymraeg dwyrain Morgannwg wedi dioddef llawer o bethau fel hyn.

I ddarparu ar gyfer y Gymanfa, rhaid oedd cael pwyllgor o aelodau cerddorol y gwahanol eglwysi, yn arbennig y codwyr canu, i ddewis y rhaglen a'r arweinydd, ac i gyhoeddi'r rhaglen mewn llyfryn. Cynnwys y rhaglen oedd tua dwsin o emynau plant ac anthem ar gyfer cwrdd y plant yn y bore, a rhyw bymtheg o emynau ac anthem arall ar gyfer dau gwrdd yr oedolion yn y prynhawn a'r hwyr. O'r llyfr emynau y dewisid y rhan fwyaf o'r emynau a'r anthem, ran fynychaf, ond gofalai'r pwyllgor gynnwys dau neu dri emyn a thonau newydd, yn enwedig tonau a oedd wedi dod i sylw pobl gerddorol ar y pryd. Yn y nodiant sol-fa newydd yr oedd y tonau, fel arfer, ond darperid rhai llyfrynau mewn hen nodiant ar gyfer y bobol gerddorol. A gwerthid y llyfrynau yn y gwahanol eglwysi cyn yr eid ati o ddifrif i ddysgu at y Gymanfa, sef o ddechrau Medi hyd at y Sul cyn y Grogolith, Sul y Blodau. Bob nos Sul, yn y cyfnod hwnnw, byddai ysgol gân am ryw hanner awr ar ôl cwrdd y nos. Y mae peth cof gennyf finnau am hyn. Ar y Sul, byddai dau gwrdd, rhwng chwech o'r gloch a hanner awr wedi saith, y cwrdd cyntaf - y prif gyfarfod - yn cynnwys y bregeth, a'r ail gwrdd - ar gyfer mân bethau, gan gynnwys gwrando ar adnodau - gan y plant yn unig, yn fy mhlentynnod i, ond gan y gynulleidfa hefyd ar un adeg. Ar ôl y cwrdd cyntaf, byddai'r gwrandawyr i gyd yn mynd allan, i sefyll y tu allan nes cael yr arwydd bod yr ail gwrdd ar ben. Bryd hynny, byddent i gyd yn mynd yn ôl i ymuno a'r ysgol gân, y dynion ar y chwith a'r menywod a'r plant ar y dde, pawb a'i raglen yn ei law, i ddysgu pedwar "part" (fel y dywedem) y tonau a'r anthem am yr hanner awr nesaaf. Y Sul cyn y Gymanfa, byddai "rihyrsal" yn Bethlehem yn y prynhawn, dan arweiniad dewis arweinydd y Gymanfa ei hun.

Mae'n sicr bod y Gymanfa wedi cael cryn effaith ar ansawdd caniadaeth y cysegr yn ein hardal ni. O fewn cof gennyf fi yr oedd y canu bob amser yn gryf ac yn llawn a hynod ddisgybledig, a phob amser yn y pedwar llais. Canu i wfreiddio'r gwrandawr. Yr oedd y plant, fel pawb arall, yn canu fel pobl hyfforddedig, oblegid, yn ogystal â chwrdd y bore yn

y Gymanfa, adeg y Groglith, yr oedd cymanfa arbennig i'r plant, a gynhelid yn y Tabor, y tro hwn, cymanfa'n gysylltiedig â'r Gobeithlu. Ar ôl yr Ysgol Sul y byddai'r ysgol gân ar gyfer honno. Fel y gellid disgwyl, felly, yr oedd pawb, gan gynnwys y plant, yn gwybod llawer o emynau'n dda, y geiriau a'r tonau, ac yn eu canu'n rhydd, y bobl mewn oed wrth eu gwaith a'r plant wrth fynd i gasglu coed neu wrth chwarae.

Canlyniad arall i'r Gymanfa oedd bod pobl ifanc gerddorol eu hanian yn mynd ati o ddifrif i ddysgu hanfodion cerddoriaeth, a rhai ohonynt yn dysgu sut i arwain corau. Y Gymanfa oedd wedi ysgogi fy nhad a Gwilym, un o frodyr fy mam, i ddysgu yn ddigon da i ddod yn godwyr canu, fy nhad yn Nantgarw a Gwilym yn Glandŵr Taf. Ac aeth brawd arall i'm mam, Emwnt, ati i ddod yn arweinydd côr hynod lwyddiannus. Dysgodd sut i ganu'r piano a'r ffidil hefyd. Dilynodd nifer o bobl eraill yr un trywydd ac o ganlyniad, daeth corau'n rhan amlwg o weithgarwch yr ardal yn y cyfnod hwn. Cofiai fy mam ddau gôr yn y cylch yn niwedd y ganrif, un dan arweiniad ei brawd Emwnt, ac un dan ddyn ifanc o'r Groes-wen, a llawer o bobl ifanc yr ardal, fy mam yn eu plith, yn perthyn i'r ddau gôr!

Pa agoriad oedd i gôr mewn cyfnod pan oedd yr arweinwyr crefyddol yn gweld pethau sydd i ni'n gwbl ddiniwed, megis y theatr a rygbi neu bêl-droed, yn fydolrwydd annerbyniol, ac yn rhannu canu, yn yr un modd, yn ganu'r cysegr (derbyniol) a maswedd (cwbl annerbyniol)? Un peth a oedd wedi derbyn cymeradwyaeth betrus yn ein cylch ni, erbyn diwedd y ganrif, oedd cantata crefyddol, sef math o ddrama ar gân. Cofiai fy mam gymryd rhan mewn cantata o'r enw "Joseff", dan arweiniad Emwnt, ac y mae gennyf luniau ohoni hi a'i brawd Gwilym fel yr oeddynt i ymddangos yn y cantata hwnnw.

Yr Eisteddfod. Sefydliad a gynigiai gyfle i gorau, i gantorion unigol ac i adroddwyr i arfer eu dawn oedd yr eisteddfod, ac erbyn y cyfnod hwn, yr oedd yr eisteddfod yn dderbyniol gan bawb bron yn y byd crefyddol hefyd. Yn wir, peth digon cyffredin oedd i dŷ cwrdd gynnal eisteddfod undydd ei hunan, ar un o'r dyddiau Llun misol o ŵyl a gâi'r glowyr ar y pryd, Dydd Llun Mabon. Clywais fy nheulu'n sôn am eisteddfodau yn y Watford (y Fodffordd, i roi iddo'i enw iawn), ar Fynydd Caerffili, yn Nant-y-wathla (Beulah, erbyn hyn) yn Rhiwbina ar gyrion Caerdydd, yn Glandŵr Taf, ym mhentref Glan-llyn islaw Nantgarw. Eisteddfodau tai cyrddau oedd y rhain, ond yn Nantgarw, cynhelid eisteddfod y pentref, ar lawnt Dyffryn Ffrwd, y plas lleol. Yr oedd eisteddfodau mwy o fewn cyrraedd i Nantgarw, megis eisteddfod Caerffili, a gynhelid yn y castell. Cofiai fy mam (gw. *Dawns*: Cylchgrawn Cymdeithas Ddawns Werin Cymru, 1973-74, tt. 3-4) gystadlu ar adrodd, un dydd Llun Mabon, yng Nghaerffili, ym Mhontypridd, mewn eisteddfod a elwid yn 'semi-national' (yn Saesneg, fel yna!), yn eisteddfod Treorci ac eisteddfod Blaen-gwynfi, yr ochr arall i'r mynydd o Gwm Rhondda, ac yn ôl, gyda'r nos, i Gaerffili, a llwyddo i gyrraedd y cyfan gyda'r

trên: pum cystadleuaeth mewn pedair eisteddfod ar yr un diwrnod! Daeth yn gyntaf yn y pump, gan ennill deg gini, swm enfawr, mewn cyfnod pan oedd 10/6d yn gyflog digon cyffredin am ddiwrnod o waith yn y pwll. Dau beth oedd yn fy synnu i wrth glywed y stori hon, bod pedair eisteddfod o fewn cyrraedd i'w gilydd yn bosibl ar yr un diwrnod, gan ddenu digon o dorf a chystadleuwyr i fod yn llwyddiannus, ac y gellid mynd o un i'r llall yn y trê, fel y gwnaeth fy mam.

Am gorau'r ardal, yr oedd yr eisteddfodau hyn yn rhoi cyfle iddynt gystadlu yn erbyn ei gilydd, heb sôn am gorau o ardaloedd eraill. Yr oedd fy mam, fel y dywedais, yn aelod o ddau gôr yr ardal a chofiai gystadlu yn y ddau, yn yr un eisteddfodau. Cofiai, hefyd, fod y dehongliad o'r "pishys" a fynnai'r ddau arweinydd yn ddigon annhebyg i'w gilydd, yn aml. Yr oedd dwy wobr yn bosibl, hefyd, un ar gyfer y côr gorau a'r llall ar gyfer yr arweinydd gorau, a gallai'r arweinydd gael ei ddewis yn arweinydd gorau, er i'w gôr golli! Cafodd fy ewyrth Emwnt y profiad hwnnw unwaith: ei gôr yn dod yn ail ac ef ei hun yn ennill gwobr arweinydd gorau'r gystadleuaeth.

Festri'r tŷ cwrdd oedd y lle agosaf at neuadd bentref a fu gan Nantgarw erioed ac yno y cynhelid y cyfarfodydd gwleidyddol, adeg etholiad, gan yr ymgeiswyr Rhyddfrydol a Thoriaidd, a rhai'r Blaid Lafur, pan ymddangosodd honno, yn gynnar yn y ganrif bresennol. Yn y festri, hefyd, neu'r tŷ cwrdd ei hun, y cynhelid unrhyw gyfarfod arall a oedd yn perthyn i'r pentref i gyd, megis cyngerdd cyhoeddus. Aeth hyn ymlaen hyd at ganol y ganrif hon, hyd yn oed wedi i'r Bedyddwyr a'r Wesleaid Saesneg godi adeiladau iddynt eu hunain. Yn chwarter olaf y ganrif ddiwethaf, yr oedd "Penny Readings", fel y'u gelwid, ar nos Sadwrn, unwaith y mis, yn boblogaidd. Math o gyngerdd anffurfiol oedd "Penny Reading", yn rhoi cyfle i'r doniau lleol, yn gantorion ac yn adroddwyr, a'r côr, i ddangos eu medr. Ac yr oedd bob amser gystadleuaeth ar ddarllen "darn heb atalnodaau", digwyddiad mwyaf arbennig y noswaith, ym marn y gwrandawyr, a'r darn mwyaf llwyddiannus oedd yr un a roddai'r nifer fwyaf o ddarlleniadau digrif pan fyddai'r cystadleuydd yn cam atalnodi.

Y Noson Ddifyr. Cyfarfod cyhoeddus oedd y "Penny Reading" ond cwrdd mwy preifat oedd noson ddifyr, fel y gelwid noson lawen yn Nantgarw. Noson ydoedd pan fyddai ffrindiau'n dod ynghyd i dŷ un ohonynt gyda'r nos, gan ddod â'u bwyd a derbyn eu te gan wraig y tŷ. Cofiai fy mam y nosweithiau hyn yn dod yn eu tro i gartref ei rhieni, ac fel y byddai pawb yn cymryd rhan, trwy ddweud stori neu adrodd neu ganu cân neu emyn, a dau o'r cwmni bob amser yn rhoi dawns, er mor gyfyng oedd y lle, yr hen wraig, Ann Lansan, yn dawnsio "Morfa Rhuddlan" a'r hen ŵr, Danial Edmunds, "Dawns y Marchog"; ac, yn aml, byddent wedyn yn dawnsio "Dawns Ceiliog y Rhedyn", gyda'i gilydd. A byddai pawb, hyd yn oed fy mam-gu, yn sychu dagrau wrth wyllo "Morfa Rhuddlan" am ei bod, yn ôl y traddodiad, yn coffáu marwolaeth y Llyw Olaf. Yr oedd fy mam-gu'n

lynod grefyddol ac yn gweld dawnasio'n fydolrwydd anaddas i Gristion, ond, rywsut, ni fyddai byth yn dangos unrhyw anfonlonrwydd wrth wyllo dawnasio mewn noson ddifyr yn ei thŷ ei hunan.

Cyfraniad fy nhad-cu i'r noson, meddai fy mam, oedd cân ar y dôn, "Nos Galan", a chofiai fy mam un pennill:

Fî fuo'n caru dwy'r un enw,
Ffal lal lal ...
Sali læn a Sali salw,
Ffal lal lal ...
Sali salw odd â'r arian,
Ffal lal lal ...
Ond Sali læn odd wrth fy nghalon,
Ffal lal lal ...

"Mam-gu'r Mynydd" y gelwid ei fam gan ei hŵyrion o Nantgarw a phetai hi'n digwydd bod yn bresennol cyfraniad cyffelyb oedd ganddi hithau, oblegid fel hyn y dechreuai hynny a gofiai fy mam o'i chân hithau:

A fellât jacit an' a ffwsjan cot!
Fî welas fachan yn mynd mywn stroc;

"Maswadd" oedd enw Nantgarw ar ganu fel hyn, ac yr oedd "maswadd" yn annerbyniol yn y cylchoedd crefyddol, peth a wyddai hyd yn oed y plant yn iawn, a phetaent yn ymroi i ganu "maswadd" wrth chwarae, ac yna un o'r llu emynau plant a wyddent, nid oeddynt byth yn mynd yn syth oddi wrth y "maswadd" at yr emyn. Rhaid oedd glanhau eu cegau trwy chwythu "hy! hy! hy!" dair gwaith, defod a oedd yn dal pan oeddwn innau'n blentyn!

Nid "maswadd" oedd cân Nanni, gwraig Ŵal, ym marn cynulliad y nosweithiau difyr a gofiai fy mam, ond rhywbeth tebycach i'r canu eisteddfodol, a ystyrir, gydag emynau ac anthemau, goruwch y canu masweddu. Yr un gân a ganai Nanni bob amser, cân y Llyw Olaf. Tybed a fydd rhywun sy'n darllen hyn o lith yn gwybod amdani? Ni wn a oedd Nanni wedi cymysgu dwy gân, oblegid y mae'r tair llinell gyntaf yn wahanol eu naws i'r gweddill, a'r dôn yn newid hefyd. Awgrymwyd imi mai un o ganeuon y ganrif ddiwethaf ydyw, hynny yw, yn perthyn i'r un ganrif â Nanni ei hunan, a dichon nad oedd hi wedi llwyddo i'w dysgu'n iawn. Dyma fel y cofiai fy mam y gân:

Ar fedd Llywelyn 'eb un mæn,
Næ chof i wed yr 'anas,
Dim ond dagra cenedl wedi'i cholli.

Ar un o frynia Bualt draw
Y safai'r dewr Llywelyn,
A'i gleddy gloyw yn 'i law,
Gan etrych ar y gelyn,
A dywedyd: "Filwyr! dewch yn awr!"

Dewch yn awr i'r goncwast fawr n'u drengi."
Doed mil o oedodd yto i'r gæd,
Yn enw Duw, yn iaith a'n gwlaed,
I giatw rhyddid Cymru,
I giatw rhyddid Cymru.

Er bod y noson ddifyr, fel y "Penny Reading", yn ddigon llewyrchus yn chwarter olaf y ganrif ddiwethaf, ni fu'r naill na'r llall fyw i ddod i mewn i'r ganrif bresennol.

Y Baledwr. Fel y dengys Ben Bowen Thomas yn ei lyfrau (*Baledi Morgannwg*, G.P.C. Caerdydd, 1957; *Drych y Baledwr*, Gwasg Aberystwyth, 1958), yr oedd y baledwyr yn hysbys iawn ym Morgannwg, fel yng ngweddill Cymru, trwy gydol y ganrif ddiwethaf, ond erbyn diwedd y ganrif, yr oeddynt ar ddiflannu. Cofiai cenhedlaeth fy rhieni ddau grwydryn yn dod ar eu rhawd i'r pentref pan oeddynt yn blant, sef Sioni Bæch y Baletwr a Dai'r Crwthwr. Ni chofiai neb ddim am y baledi a ganai ac a werthai Sioni Bæch y Baletwr na dim am yr hyn a ganai Dai'r Crwthwr ar ei grwth. Yr unig beth a gofiai pawb oedd bod y ddau bob amser gyda'i gilydd ac y gellid eu clywed yn dod o bell gan fel yr oeddynt yn ffraeo ac yn pleto! Aethant yn ddihareb yn y pentref, a hyd yn oed yn fy mhlentyndod i, disgrifiad pawb yn y pentref o rai tebyg iddynt oedd: "Ma rheina fel Sioni Bæch y Baletwr a Dai'r Crwthwr, wastod yn ffraeo a wastod yn ffrins!" Cofiai fy mam faledwr yn dod i ganu ar y Tymbl ym Mhontypridd, ond ni chofiai ddim oll am y baledi a werthai'n ddigon prysur.

Y Feri. Arferiad arall a ddiflannodd, erbyn dechrau'r ganrif bresennol, gyda'r rhai oedd yn ei arddel, oedd y Fari Lwyd, adeg y Nadolig - y Feri, fel y dywedem yn Nantgarw. Cofiai fy mam fynd ar ôl y Feri gyda phlant eraill o gwmpas tafarnau'r pentref (gw. *Llafar Gulad*, rhif 40, Mai 1993, t. 151; Ceinwen H. Thomas, *Tafodiaith Nantgarw*, Cyfrol 1, t. 190). Tad-cu fy mam, Neti Amwstwn, oedd yn "atab y Feri" yn y cyfnod hwn, am fod ganddo'r hyn a ystyrid yn "awan barod". Gan mai o'r tu fewn, yn cadw'r Feri allan nes bo'r tafarnwr yn barod i ganiatáu iddi ddod i mewn yr oedd Neti, ni allai'r plant ei glywed wrth y gorchwyl hwn, ac ni wn ai cyfansoddi ei benillion ateb a wnâi (dyna a ddywedid amdano) neu addasu penillion traddodiadol. Yr oedd cof yn y teulu am ddwy enghraifft o'i "awan" a ddywedodd wrth ddau aelod o'i deulu ei hun, un i'w nai, Jac, a ddaeth wedyn yn dad i'm tad innau, ac un i'w ferch ei hun, mam fy mam. Rhoddaf yr un i'w ferch, fy mam-gu.

Pan oedd fy mam-gu tua saith oed, bu farw ei mam, gwraig gyntaf Neti Amwstwn, a chymerwyd hi gan chwaer ei mam a'i gŵr atynt i fferm Rhiw'r Ddâr (Rhiw Ddær yn iaith yr ardal). Yno, basinaid o uwd ac afal ar ei ôl oedd y brecwast arferol a roddid i'r plant. Yr oedd uwd yn atgas gan fy mam-gu, ond yr oedd yn rhy swil i ddweud wrth ei modryb; yn lle hynny, trefnodd gyda'i chefnider i fwyta'i huwd hi gyda'i un ei hunan a chael ei hafal

hi'n dâl am y gymwynas! Aeth hyn ymlaen am sbel nes iddi gael ei hanfon ar neges, a digwydd cwrdd â'i thad, ac yn y sgwrs daeth stori'r uwd allan. Meddai Neti: "Pin aid di nôl nawr, cofia wêd wth dy fotryb iti 'ngweld i. A'i ofynniff 'i iti: "Beth ddwâd yr 'en shaw?". A gwed ti fel 'yn: "Fe ddwâd 'nhæd wthdo'i am wêd fel 'yn wthdoch chi:

Gryndwch yma, Motryb Jwana,
Wi'n lico per a fala o'r gora,
Ond well gin i yw dioddaf maethgan
Na byth gael bita uwd sugaethan."

Gofalodd fod ei ferch yn dysgu'r pennill yn drylwyr cyn gadael iddi fynd adref ac, yn Rhiw Ddær, aeth popeth fel yr oedd Neti wedi rhagweld. Ond, wedi clywed y pennill, meddai ei modryb: "Wyt ti ddim yn bita dy uwd, 'y nghariad i?" "Næg yw", meddai'r cefnder, a oedd ar bwys, "Mae'n 'i roi a ifi, a mae'n rhoi 'i afal ifi am 'i fita fa!" Cofiai fy mam-gu, ar hyd ei hoes, ei syndod bod ei modryb wedi deall am yr uwd ar ôl clywed pennill ei thad. Yr oedd yn rhy ifanc ar y pryd i ddeall fod y pennill yn ei dodi i adrodd amdani ei hunan yr hyn yr oedd wedi ofni ei ddweud.

Wrth wrando ar rai a gofiai'r cyfnod hwn, byddwn yn cael yr argraff fod pobl yn barotach, bryd hynny, i ganu wrth eu gwaith ac wrth hamddena nag yr ydym ninnau heddiw. A'r dewis mwyaf tebygol fyddai hoff emyn, neu emyn o raglen ddiweddaraf y Gymanfa. Cofiai fy mam, er enghraifft, fel y byddai ei mam-gu, Mam-gu'r Mynydd, yn canu emyn wrth ei gwaith yn ei bwthyn ar Fynydd Caerffili, yr un emyn bob amser, ar fersiwn o'r dôn "Bryniau Casia". Gan mor aml y clywodd fy mam yr emyn hwn fe'i dysgodd a'i ganu ei hunan, yn ei thro, mor aml hefyd nes i minnau ei ddysgu. Ni chlywais neb ond fy mam yn canu'r emyn hwn ac ni chlywodd hithau neb ond Mam-gu'r Mynydd. Emy'n ydoedd yn dechrau:

Ni welas 'æf a gaea,
Fi welas ddydd a nos.

(gw. "Emyn Mam-gu'r Mynydd" *Bwletin Cymdeithas Emynau Cymru*, Cyfrol 3, Rhif 1 (1988-89) tt., 20-23; ac E. Wyn James, "Rhagor am Emy'n Mam-gu'r Mynydd", tt. 24-30).

Ond "maswadd" fyddai'n digwydd weithiau, hefyd, yn enwedig pan oedd rhywun yn teimlo'n ysgafnfryd. Un gân a glywais innau oedd:

Odd cæth a chwrcyn gin Wil George
Yn gwitho'n fforj Cyfarthfa;
Nillws un o'r ddou ariôd
'R un grot am dorth o fara.

Cân yn gysylltiedig ag ardal ddiwydiannol Merthyr Tudful, pan oedd yn ei hanterth yw hon, mae'n amlwg. A chofiaf fod ar lin fy ewyrth Gwilym ac yntau'n canu'r gân adnabyddus: "Bachan bæch o Ddywlish". Wrth ganu'r llinell olaf, tynnodd fy ewyrth ei law i lawr dros fy nhrwyn innau i ddangos trwyn hir, ac meddai: "Un glæn odd a' nta?"

Yr oedd cân arall, gysylltiedig â byd diwydiannol y cyfnod, wedi cyrraedd Nantgarw: cân ydoedd am Syr William Thomas Lewis (1831-1914), Arolygydd Ardalydd Bute, a ddaeth yn Arglwydd Merthyr cyn ei farw. Gwnaeth enw iddo'i hun fel meistr caled a gwnaeth rhywun faled iddo (gw. Ben Bowen Thomas, *Drych y Baledur*, 1958, t.85, a Dafydd Owen, *I Fyd y Faled*, 1966, t. 236, am y pennill yn llawn). Ond, erbyn fy mh Bentleyndod i, ni chofiai fy ewyrth Gwilym, a glywais i'n ei ganu, na neb arall yn Nantgarw, ond dwy linell olaf y pennill cyntaf, a chanwyd y rheini gan fy ewyrth fel math o gytgan:

Pin aiff Syr Wil i'r bedd
 Pin aiff Syr Wil i'r bedd,
 Ond *bydd* yn nef hawddgarol *daw* sydd yn y gwreiddiol
 Pin aiff Syr Wil i'r bedd.

Byddai pobl weithiau'n canu yn eu cartrefi i ddiddanu'r plant. Un gân a gofiai fy mam ac a ganwyd i minnau yn fy nhro oedd "Ifan bæch a finna", ond bod y canwr yn defnyddio'r enw'r plentyn oedd yn cael ei ddiddanu e.e.,

Ifan bæch/Mari fæch a finna
 Yn mynd sha Llundan drot,
 I brynu ceffyl coron
 A chyfrw petar grot,
 A wip *guyrth* dwy ginog (gwyrrth - gwerth)
 A sbardun dima'r pær,
 O Ifan bæch/Mari fæch a finna
 Syn cianu blota'r 'æf.

Cân arall a genid i blant oedd y gân adnabyddus "Hen Fenyw Fach Cydweli". Yr wyf wedi ei chlywed gan bobl o ardaloedd eraill, ond yr oeddem yn ei chanu ar dôn wahanol, ychydig yn fwy bywiog, yn Nantgarw, ac yn trin y rhan olaf fel math o gytgan, e.e.,

'En Fenyw Fæch Cydweli
 Yn *guyrthu* losin du, (gwyrrthu - gwerthu)
 Yn rhifo deg am ddima,
 Ond un ar ddeg i fi;
Cytgan O dyna'r newydd gora ddaeth ifi, ifi,
 O dyna'r newydd gora ddaeth ifi, ifi,
 Odd rhifo deg am ddima,
 Ond un ar ddeg ifi.
 Tra lal la, tra lal la, tra lal lal lal lal la,
 Tra lal la, tra lal la, tra lal lal lal la.

Peth cyffredin oedd canu i suo baban i gysgu hefyd, ond ni chofiai neb o genhedlaeth fy mam neb yn canu hwiangerdd. Emyn oedd y gân erbyn y cyfnod yna, ac yn fy mh Bentleyndod innau hefyd. A sôn am blant, cofiai fy mam fel y byddai hi a phlant eraill yn aml yn llafarganu'n wylofus,

petaent yn cydgerdded i rywle - i'r coed i gasglu coed tân er enghraifft. A'r hyn a gofiai oedd yr hawl-ac-ateb canlynol, gan ddal llafariad olaf pob llinell yn hir:

Pawb Bæ - æ

1 Ble ma 'm mam i : ; ?

2 Ar y graig ddu ; ;

1 Beth mae'n mwyn yno : : ? (mwyn = moen, mofyn)

2 Mwyn bwyd i fi : :

Pawb Bæ - æ

Wrth chwarae gyda baban, neu gyda "shwli" (fel y galwem "toddler" yn Nantgarw) un peth a wneid yn aml oedd rhifo'i fysedd, gan ddechrau gyda'r bys bawd, ac ysgwyd pob bys wrth ei enwi, fel hyn:

Fenni Fenni,

Brawd Fenni Fenni,

Fenni Fenni'r tagwr,

Dic y Grocwr,

Bys bæch, druan gŵr,

Dorrws 'i ben fel papwr. (papwr = pabwyr)

gan ddweud y llinell olaf yn gynhyrfus, tra'n plygu'r bys yn sydyn.

Petai buwch goch y genfan (y fuwch goch gota) yn disgyn ar law plentyn yn yr haf, byddai'r plentyn yn mynd trwy'r ddefod a ganlyn: byddai'n codi'r llaw yn uchel, gan ddal y fuwch goch ar y dor a llafarganu:

Buwch goch y genfan (cenfan = cenfaint)

P'un a' glaw n'u 'inon?

Os glaw, cwmp i lawr,

Os 'inon teg, HEDFAN!

a thaflu'r llaw i beri i'r fuwch goch hedfan.

'*Street Cries*'. Mewn ardal wledig, fel oedd ein rhan ni o Gwm Taf yn chwarter olaf y ganrif ddiwethaf, peth annisgwyl fyddai clywed yr hyn a eilw'r Saeson yn "street cries", ond yr oedd nifer fach o bobl yn defnyddio'r dull hwn o dynnu sylw wrth ddod o gwmpas i werthu eu nwyddau. Cofiai fy mam ryw bump o bobl yn dod i Nantgarw yn eu tro ac yn cyhoeddi eu nwyddau mewn neges ddigon cofiadwy, sef Dan a Peci'r 'Alan, yn gwerthu barrau o halen, Mocyn y Gyllan Ffrennig, yn gwerthu calch o Odyn y Gollen Ffrengig, is i lawr yn y cwm, dyn yn gwerthu dau fath o eli: Eli Treffynnon ac Eli Trefflint, a dau yn gwerthu rhythons, fel y galwem ni gocos, cocs, un ohonynt yn gwerthu rhythons Penclawdd a'r llall rhythons Cydweli. Mae'r "cries" wedi eu cyhoeddi yn *Llafar Gwlad*, rhif 40, Mai 1993, t.10, ac yn Ceinwen H. Thomas, *Tafodiaith Nantgarw*, Cyfrol 1, t. 172, Engh. 3.

Canu oedd diddordeb rhai aelodau o'm teulu i, fel y gwelsom uchod, ond nid canu oedd yn dwyn bryd fy ewyrth Twm, un arall o frodyr fy mam. Casglu penillion difyr a wnâi ef. Yr oedd ganddo lyfryn bach yr ysgrifennai ynddo benillion ac englynion a fyddai wedi ei oglais. Un pennill a gofiai fi

o'r stôr hwn, pennill am geffyl badwr.

Yr oedd y gamlas wedi bod yn bwysig ym mywyd pentref Nantgarw, am ran fawr o'r ganrif, a llawer o'r tai'n gartrefi i fadwyr neu'n stablau i'w ceffylau; ond erbyn y chwarter olaf yr oedd y prysurdeb wedi dechrau arafu a'r rhan fwyaf o'r badwyr yn y pentref, fel Neti Amwstwn, yn hen ddynion wedi ymddeol. Nid rhyfedd, felly, i'm hewyrth ddiogelu pennill am geffyl badwr, pennill sy'n adlewyrchu rhan o'i synnwyr digrifwch yntau. Nid oes ond gobeithio nad oedd y pennill yn ddisgrifiad teg o geffyl badwr.

Ceffyl batwr, ceffyl tena,
Ac yn cloffi yn 'i glin,
Ac yn llycra dan 'i dacla,
O flaen 'i drwyn i dwll 'i din.

Yn y cyfnod hwn, yr oedd Carnelian (Coslett Coslett) a'i frodyr, Talelian a Gwilym Elian, (gw. *Barn*, Medi 1980, Rhif 212, t. 263, "Dau Frawd o Sir Fynwy", Joan Harding) yn byw "ar y Grôs", fel y dywedem ni, sef ym mhentref y Groes-wen ar Fynydd Meio. Bu fy nhad-cu, ar un adeg, yn gweithio yn ymyl Carnelian yn un o byllau ardal Pontypridd, a byddent hwy ac eraill yn cwrdd i gael sbel ac i fwyta'u bwyd. Yr oedd fy nhad-cu'n meddwl y byd o Carnelian a chofiai fy mam ei glywed yn sôn am rai o'r sgysrsiau a fu, yr adegau hynny, ac fel y byddai rhywun yn y cwmni'n sicr o ofyn i'r bardd: Gnæ bennill ifi, Cos!" a Charnelian bob amser yn ufuddhau ar unwaith. "Meddwl am farddoniath!" meddai fy nhad-cu, yn llawn edmygedd o'r fath gamp, "dyna fardd yw e, ta!"

Yr oedd ei frawd Talelian yn berson mwy dychanol, a'r cof a oedd wedi aros amdano ef yn Nantgarw oedd am y darn dychanol iawn a oedd wedi crwydro'r ardal adeg etholiad, rywbyrd, darn di-enw, ond gwelai pawb stamp arbennig Talelian arno. Ni chofiai fy mam, ysywaeth, ond dwy linell ohono, sef:

Bwch y Gwynt o'r Apar Fawr
A Bili-ddy-Gŵs a'r ddou "Just So".

Perchen fferm yr Aber Fawr yng Nghwm yr Aber (Abertridwr) oedd "Bwch y Gwynt" ac aelod yn eglwys y Groes-wen; ffermwr oedd "Bili-ddy-Gŵs" hefyd, o Werndomen yn ymyl Machen, yntau'n aelod yn y Groes-wen; a dau frawd, cefndryd mam fy mam oedd y "ddou Just-So"! Dynion busnes yng Nghaerdydd oedd y ddau, yn cadw cysylltiad â'r hen ardal ac yn dal i siarad Cymraeg yn ddi-lol, ond bod Seisnigrwydd eu gwaith beunyddiol yn dod allan yn yr ebychiad dieithr a oedd yn rhan o'u llafar ac wedi goglais pwyl bynnag a oedd wedi llunio'r ddychangerdd.

Dawnsio Gwerin. Y mae i Nantgarw enw erbyn hyn ym myd dawnasio gwerin ac yr wyf eisoes wedi trafod y pwnc mewn mannau eraill (gw. *Cylchlythyr* Cymdeithas Ddawns Werin Cymru, Rhif 5, 1957, tt. 7-10; *Cylchlythyr* Cymdeithas Ddawns Werin Cymru, 1973-74, tt. 12-15; 17-18; 19-20). Ond ni ellir anwybyddu'r pwnc yn llwyr mewn erthygl fel hon.

Nid oedd Diwygiad Methodistaidd y ddeunawfed ganrif wedi ysigo fawr ar boblogrwydd y dawnsio yn ein hardal ni, oblegid daliodd i fod yn llewyrchus am ran fawr o'r ganrif honno a'r nesaf. Yn Long Rŵm 'R 'En Dafarn (the Cross Keys Inn, a rhoi iddi ei henw swyddogol) y cynhelid y dawnsio hyn, i gyfeiliant y delyn. Yr oedd tad-cu fy nhad, Ifan Tomos, yn ddawnsiwr nodedig cyn cael diwygiad yn 1859, ac ar ôl hynny, byddai'n rhedeg heibio i 'R 'En Dafarn petai'n clywed y delyn a sŵn y ddawns yno, gan gymaint y demtasiwn i fynd i mewn i ymuno.

Y mae'n bur debyg bod y "Peipyrz" ymhlith y dawnsiwr yn 'R 'En Dafarn yn ystod y ganrif ddiwethaf. Nid oedd, yn eu plith hwy, unrhyw wrthwynebiad crefyddol i'r ddawns nac i fynychu tafarnau. Yn wir, y mae posibilrwydd bod un ohonynt wedi cario rhai o'r dawnsiau'n ôl i'w hen gartref, fel y clywais gan Mrs. Lois Blake, y Saesnes a wnaeth gymaint i sefydlu a datblygu Cymdeithas Ddawns Werin Cymru yn y ganrif bresennol. Y mae cwmni o ddawnsiwr gwerin yng Nghaerlwythgoed (Lichfield) yn swydd Stafford, yn ardal y "Potteries", ac y mae gan y cwmni hwn, meddai Mrs. Blake wrthyf, hanner dwsin o ddawnsiau sy'n annhebyg eu naws i ddawnsiau gwerin Lloegr. Ymhellach, y mae traddodiad am y dawnsiau hyn mai "an aunt from Wales" oedd wedi dod â hwy yno. Pan oedd Mrs. Blake yn astudio fy nodiadau i o ddisgrifiad fy mam o'r dawnsiau a welsai yn Nantgarw, yr oedd wedi eu dangos i un o arbenigwyr dawnsiau gwerin Lloegr, a darganfuwyd fod un ddawns yr un ffunud ag un o'r hanner dwsin hyn yng Nghaerlwythgoed, sef Dawns y Gaseg Eira. "This is the missing link" meddai'r arbenigwr. Y mae'n ddigon posibl, felly, meddai Mrs. Blake wrthyf, mai un o'r "Peipyrz" oedd yr "aunt from Wales", ac mai dawnsiau a ddysgodd yn Long Rŵm 'R 'En Dafarn a gyflwynodd i'w chydwladwyr yng Nghaerlwythgoed.

Erbyn chwarter olaf y ganrif, yr oedd llai o fri ar y dawnsio yn Nantgarw, ond nid oedd y traddodiad wedi darfod, o bell ffordd, ac fel y gwelsom uchod, yr oedd rhai o genhedlaeth Ifan Tomos, fel Daniael Edmunds ac Ann Lansan, er eu bod yn aelodau'r tŷ cwrdd, ac er cael eu bygwth o gael eu "torri mäs", wedi mynnu dal ymlaen i ddawnsio. Byddai'r Odyddion yng Nghaerffili a'r Lforiaid yn Nantgarw yn cynnal cyngerdd ar ôl eu ffeist flynyddol, ac yr oedd Daniael Edmunds yn un o'r perfformwyr rheolaidd. Yr oedd yntau, ac eraill, yn perfformio yn ffeist y Gaseg Pen Meti yn ogystal, sef y wledd yn yr ysgubor ar ddiwedd y cynhaeaf yn y ffermydd. Cofiai fy mam weld Daniael yn ffeist Dyffryn Isha, y fferm a aeth, yn y ganrif bresennol, o dan bwl Nantgarw. Ond y lle a'r pryd mwyaf annisgwyl i weld dawnsio, erbyn chwarter olaf y ganrif ddiwethaf, oedd Cae'r Hendre, yn Nantgarw, adeg te parti'r Ysgol Sul ar y Llungwyn. Petai'r tywydd yn deg, byddai pawb yn mynd i'r cae hwnnw, ar ôl y te, i gynnal chwaraeon a rاسus i'r plant ac, yn aml, ras i'r menywod canol oed! A chofiai fy mam, yn blentyn, weld rhai pobl, pobl mewn tipyn o oedran, yn mynd ynghyd i

waelod y cae i ddawnsio.

Yr unig le arall y gellid dawnsio, erbyn hynny, oedd yn y ffair wagedd gyda'r nos, ar ddiwedd ffair Caerffili a ffair y Ton (Tongwynlais), ar ôl i'r rhai a fu'n prynu a gwerthu fynd adref. Yr oedd Mam-gu'r Mynydd yn cadw stondin yn y ffeiriau hyn, ac wedi cau'r stondin, arhosodd ar ôl, sawl gwaith, er mwyn i'w hwyres fach gael gweld y dawnsio. Cwmni o bobl ifanc oedd y dawnsiwr, o Gaerffili, mwy na thebyg, ac yr oeddynt yn dawnsio er mwyn ennill arian.

Erbyn fy mhlentyndod i, nid oedd dim ar ôl o'r dawnsio ond y stepo - gan ambell un o fynychwyr y tafarnau a chan Tomi bæch y Star, a oedd yn stepo'n hynod fedrus er yn blentyn. Y mae brith gof gennyf hefyd am un a oedd yn cael yr enw o fod yn stepwraig fedrus iawn, pan oedd yn ifanc. Chwaer ydoedd i ddau hen delynor y pentref. Yr oedd stepo Nantgarw dipyn yn fwy cymhleth na'r stepo a wneir heddiw, ac yn ychwanegol at hynny, yn ôl fy mam a'm hewyrth Gwilym, a oedd wedi gweld y stepwraig hon, Annie Jenkins, yn stepo, yr oedd ganddi gamp ychwanegol: byddai'n doddi soser wyneb i waered ar y llawr ac yn stepo ar honno, gan droi ei thraed a'i chorff a chicio yn null traddodiadol y pentref. Gellid meddwl, meddai fy rheulu i, ei bod yn sefyll yn solet ar y soser, ac yn rhoi ei phwysau arni, ond nid oedd hynny'n bosibl, oblegid yr oedd y soser yn mynd glinc! glinc! glinc! trwy gydol y perfformiad. Tric clyfar iawn, ym marn fy rheulu i. Gresynai fy mam fod Annie Jenkins wedi marw cyn i Gymdeithas Ddawns Werin Cymru gael ei ffurfio, gan y byddai'r ddawns ar y soser yn rhywbeth gwerth ei ddiogelu.

Bach iawn o'r arferion a'r traddodiadau y soniwyd amdanynt yn yr erthygl hon a fu byw i ddod i mewn i'r ganrif bresennol. Wrth i'r Gymraeg fynd ar goll yn raddol, gyda diflaniad cenhedlaeth fy rhieni i, diflannodd hefyd y cof a drysorwyd ynddi a'r arferion yn gysylltiedig â hi. Yr unig beth a ddaliodd ei dir oedd y Gymanfa, ond y mae hithau wedi darfod erbyn hyn.

Nid yw'n debyg bod neb sy'n byw yn Nantgarw heddiw yn gwybod dim am ei draddodiadau. Y mae disgynyddion y gymuned wreiddiol wedi Seisnigo neu wedi gwasgaru a dieithriaid wedi dod i mewn; ac yn saith degau'r ganrif hon chwalwyd bron yn llwyr y pentref gwreiddiol ei hun, lle y cefais i a'r genhedlaeth olaf i fedru'r Gymraeg ac i etifeddu'r traddodiadau lleol eu codi. Mae popeth yn newydd ac yn ddieithr. Un llygedyn o obaith sydd yn y sefyllfa drist hon, yn ôl a ddeallaf. Mae ysgol Gymraeg yng Ngwaelod-y-Garth yng Nghwm Taf ar un ochr i'r Nantgarw sydd heddiw, ac un arall yng Nghaerffili yng Nghwm Rhymni, yr ochr arall iddo, a phlant o Nantgarw'n mynychu'r ddwy. Wrth adennill iaith eu gwlad eu hunain, bydd gobaith i'r plant hyn adennill ychydig, o leiaf, o'r hyn a gollwyd.

CONTRABONCIN, PIGRANSI

Phyllis Kinney

Ym 1716 yn Sir Fôn dechreuodd bachgen pedair-ar-ddeg oed gadw llyfryn i nodi (1) geiriau carolau gwasael, (2) dyrïau, (3) ambell i ddychymyg a darn treth-tafod, (4) canïadau, (5) englynion, ac yn y blaen. Mae'r llawysgrif yn bwrw cryn oleuni ar arfer canu gwasael ym Môn yng nghyfnod y bachgen, Richard Morris, ond nid wyf am drafod geiriau'r cerddi eithr yn hytrach sôn am yr alawon.

Nid oes nodiant cerddorol yn y llawysgrif, dim ond enwau alawon, 378 ohonynt, y mwyafrif helaeth yn enwau Seisnig - ffaith foel sydd wedi arwain rhai i honni bod cerddoriaeth draddodiadol y Cymry wedi'i boddi mewn alawon Seisnig yn y ddeunawfed ganrif. Yn ei llawysgrif mae Richard Morris yn rhoi enwau alawon uwchben penillion, megis "Carol gwirod yn drws ar master the prentice" neu "Dyrïau ar y mesur a elwir Llanbad." Ond mae'r ddogfen yn cynnwys hefyd bedair rhestr o enwau alawon o bob math: a) un rhestr gyda'r teitl "Enwau Mesura" b) un o "The names of the tunes that I can sing on the viol... 1717." c) rhestr arall o "Henwau mesurau fel y canlun (mwyn lawn)" ch) ac yn olaf, rhestr hirfaith o "Names of tunes as foloweth: 1717". Mae ambell i alaw yn ymddangos ar fwy nag un rhestr, yn wir mae rhai yn ymddangos ar bob un.

Gawn ni edrych yn gyntaf ar yr alawon i'w canu gyda geiriau arbennig, sef y carolau, y dyrïau a'r penillion, rhai ar gyfer mesurau gwerin fel cywydd deuair-fyrion, tri-thrawiad, awdl-gywydd a thriban, a rhai ar fydrau cân fel "Hyd y frwynen" neu "Devil take the wars". Mae'r rhan fwyaf o'r carolau gwirod ar fydrau barddonol gwerin. Ar y cyfan nid yw Richard Morris yn trafferthu i enwi tôn ar gyfer y rhain, ond weithiau mae'n rhoi enwau fel "Tri chwarter tôn" neu "Tôn deuair" neu "Hanner tôn" yn ogystal â "Triban Morgannwg" neu "Y fedle bach". Ymhlith y carolau gwirod yn y mydrau gwerin, daw dau enw Seisnig: "Pigransi" i'w canu ar benillion awdl-gywydd, a "May Day", ar benillion sy'n amrywiad o dri-thrawiad. Mae Richard Morris yn nodi tair set wahanol o benillion awdl-gywydd i "Pigransi"; mae'r enw'n llygriad o enw alaw Seisnig o'r unfed ganrif ar bymtheg: "Peggy Ramsey", alaw oedd yn gyfarwydd i Shakespeare, ac un sy'n addasu'n berffaith i dribannau neu awdl-gywydd.

Dyma'r alaw fel mae hi'n ymddangos yn niwedd yr unfed ganrif ar bymtheg, o *William Ballet's Lute Book*, gyda dau bennill "garol gwirod yn tu ar pigransi".



Mae yma basda o aelod march cewch honno o barch cwmpeini



mae hi yn beredd gwn i bod mae'r llygod gwedi phrofi

Mae'r geiriau Cymraeg yn ffitio'r alaw Seisnig yn berffaith. Collodd yr alaw Duduraidd "Peggy Ramsey" ei phoblogrwydd erbyn canol yr ail ganrif ar bymtheg yn Lloegr. Ond mae'n amlwg ei bod hi'n aros yn boblogaidd yng Nghymru ymhlith y telynorion a'r datgeiniaid. Mae'n debyg eu bod nhw wedi'i dysgu hi ar lafar, sy'n esbonio sillafiad yr enw "Pigransi" neu "Pigarancy" - y ddau sillafiad sy'n ymddangos yn y llawysgrif. Tua diwedd yr ail ganrif ar bymtheg yn Lloegr fe ddaeth amrywiad o'r alaw "Peggy Ramsey" yn boblogaidd yn gysylltiedig â geiriau baled Saesneg, "The Hemp-dresser", enw sydd hefyd yn ymddangos yn llawysgrif Richard Morris. Cewch weld sut mae'r alaw hon, hefyd, yn addas i ganu awdl-gywydd.



There was a London Gentlewoman That lov'd a Countrey man, a: And
Fa la la la la, Fa la la la la Fa la la la la la la



she did desire his company A little now and than, a.
Fa la la la la, Fa la la la, Fa la la la la la la.

Daeth yn boblogaidd yn yr Alban ar ôl i Robert Burns osod geiriau, "The De'il's awa wi' the Exciseman" arni hi. Yng Nghymru tua'r un amser cynhwysodd Edward Jones yr alaw yn ail argraffiad *Musical and Poetical Relicks of the Welsh Bards*, 1794, o dan y teitl "Dadl dau" neu "Flaunting two". Yn ôl nodyn Edward Jones: "This Tune is commonly sung by two persons; who answer and contend with each other in contemporary themes .."



Mae nhw'n d'weudyd na chai fawr, gida gwawr o gowaeth;
Bôdlon ydw i os cai'r Fûn, fôd heb yr ûn geiniogwerth



Hwi d'accw hi! Hwi d'accw hi! a hwi d'accw hi'r lân Eneth



Hwi d'accw hi! Hwi d'accw hi! a hwi d'accw hi'r lân brydferth

Sylwch fod geiriau Edward Jones hefyd ym mydr awdl-gywydd. Mae'r tri enw, "Pigransi", "Hemp-dresser" a "Ffyrlling ting too" (Flaunting two) yn ymddangos yn llawysgrif Richard Morris, a'r tair alaw yn addas i ganu awdl-gywydd. Dyna esbonio poblogrwydd yr alaw yng Nghymru, ymhell ar ôl iddi ddiflannu yn Lloegr, yn fy marn i.

Nid yw hi mor hawdd i addasu'r tri-thrawiad i alaw o'r enw "May day", sy'n ymddangos yn *The Dancing Master* (tua 1660); mae'n bosibl i ganu'r geiriau ar ran gyntaf yr alaw, ond nid yw gosodiad yr ail ran yn foddhaol. Efallai bod alaw Richard Morris yn un Gymraeg ar gyfer dathlu Calan Mai a rhywun - telynor o bosib - wedi hen gyfieithu'r enw i Saesneg er mwyn plesio rhyw noddwr.

Mae rhai carolau gwirod yn galw am alawon o'r mwyaf cymhleth; yma cawn enwau Cymraeg fel "Ffarwel Trefaldwyn" a "Conseat y ddafad ddu", yn ogystal â'r enwau Saesneg "Ffading", "Collier's Daughter", "Let Burgundy Flow" a "Master the Prentice". Defnyddiwyd "Fading" a "Let Burgundy Flow" fel alawon baled yn Lloegr, ond nid yw geiriau Richard Morris yn gyfeithiadau o'r Saesneg. Yn wir, ni fydd yr alaw Seisnig, "Fading", yn gwneud y tro, heb dorri allan un frawddeg gerddorol. Roedd Lewis, brawd Richard, yn gyfrifol am sawl pennill, yn cynnwys "Cwlwm i'w roi ar ben carol gwirod ar Coliers daughter" 1717 - yr un flwyddyn roedd Richard Morris yn ei nodi hi fel un o'r "tunes that I can sing on the viol". Cyhoeddwyd yr alaw fel dawnys yn Lloegr tua'r un amser ac mae'n amlwg y defnyddiwyd rhai o leiaf o'r alawon offerynnol, a oedd yn dod i mewn i Gymru, at ddibenion gwahanol i'r Saeson.

Mae un-ar-hugain o ddyriau yn y llawysgrif, y rhan fwyaf i'w canu ar

alawon Cymreig fel “Hyd y Frwynen”, Barnad yr heliwr”, “Breuddwyd Siôn Lewis”. Er bod gan ddwy o'r rhain enwau Seisnig, “Leave land” a “Heavy heart”, mae'n debyg bod yr alawon yn Gymreig. Mae mydrau'r geiriau yn nodweddiadol Gymreig ac nid oes sôn o gwbl am alawon gyda'r enwau hynny ymhlith alawon Seisnig. Mae'r un peth yn wir am “King”'s farewell”. Mae'r enw i'w gael deirgwaith yn y llawysgrif, ac fel “Leave land” a “Heavy heart”, roedd yr alaw'n boblogaidd yng Nghymru dros gyfnod maith - ond nid wyf wedi llwyddo i ddod o hyd i naill ai'r alaw neu'r enw yn Lloegr. Ar y llaw arall mae dwy alaw gydag enwau Cymreig sy wedi gwreiddio yn Lloegr yr unfed ganrif ar bymtheg: cychwynnodd “Pen rhaw” fel “John come kiss me now” (yn boblogaidd fel dawns a *ground* i amrywiadau) ac mae “Plygiad y bedol” yn perthyn i deulu alawol “The hunt's up”, sy'n dod o amser Harri'r Wythfed. Mae dyfiau hefyd ar “Since Celia's my foe”, a oedd yn boblogaidd yn Lloegr yn yr ail ganrif ar bymtheg fel alaw faled, ond erbyn amser Richard Morris roedd hi wedi dechrau colli poblogrwydd gyda'r Saeson.

Ar wahân i'r carolau gwirod a'r dyfiau mae gan Richard Morris benillion eraill i alawon arbennig ac yma fe gawn ni fwy o enwau Seisnig. Ymhlith yr alawon Cymreig mae “Dugan cil y fwyalch”, “Morfa Rhuddlan”, “Hyd y frwynen” ac yn y blaen, ac un arbennig o ddiddorol: “Cwlwm Foukun ar Arglwydd Llewelyn”, i'w thrafod nes ymlaen. Roedd “Fedle fawr” yn wreiddiol yn alaw Albanaidd, “About the banks of Helicon”, sydd wedi ymgartrefu yma ers i Edmwnd Prys ei defnyddio hi ar gvfer ei “Gân y Gwanwyn”. Daeth hi'n arbennig o boblogaidd fel alaw carolau plygain a baledi, tan ddiwedd y ganrif ddiwethaf. Roedd yr un peth yn wir ynglŷn â'r alawon Seisnig, “See the building” a ganwyd yng Nghymru hyd y ganrif hon fel “Gwêl yr adeilad”; “Voice” (Voice yn y llawysgrif ond a sgrifennwyd yn “Foes” uwchben geiriau baledi Cymraeg); a “Prince Rupert”, alaw o amser y Rhyfel Cartref, a oedd yn ddigon poblogaidd yng Nghymru i gael ei nodi yn llawysgrif Ifor Ceri, yn y ganrif ddiwethaf, ac a ddefnyddiwyd yn y ganrif hon gan Osborne Roberts fel alaw i “Pistyll y Ulan”. Nid oes sôn am alawon fel “Bohemia of the Queen”, “Royall Oake” neu “Welcome penny” ar ôl amser Richard Morris.

Dyna'r alawon rydym ni'n sicr i Richard Morris fod yn eu gwybod. Ond beth am yr enwau alawon yn y rhestrau? Mae'n rhaid iddo fod yn gyfarwydd a'r alawon yn y rhestr o “tunes that I can sing on the viol”, a'r rhai a ddisgrifir ganddo fel “*muyn iaun*”. Ac mae'n debyg hefyd ei fod yn gwybod yr alawon yn y rhestr o “Enwau mesurau”. Ond beth am y tri chant pumdeg a phump alaw ar y rhestr hirfaith? Wedi i ni dynnu allan yr enwau sy'n ymddangos ar y rhestrau eraill, mae dros ddau gant ar ôl - y rhan fwyaf ohonynt yn enwau Seisnig. Faint o'r rheiny oedd Richard Morris yn eu gwybod? Ac a oeddyn nhw'n gyfarwydd i Gymry eraill?

Am wybodaeth ynglŷn ag alawon Cymreig yng nghyfnod y bachgen

o Fôn, rydym ni'n chwilio mewn niwl trwchus. Mae nodiant cerddorol, mewn print neu llawysgrif, yn ofnadwy o brin yng Nghymru tan tua 1725, pan gyhoeddwyd cyfrol o'r enw *Aria di Camera*, llyfr a oedd yn cynnwys 5 alaw yn gysylltiedig â Chymru. Cyn hynny cawn un antiffonal Cymreig sy wedi goroesi o gerddoriaeth yr eglwys yn yr Oesoedd Canol; a llawysgrif Robert ap Huw, dyddiedig 1613, ond yn cynnwys defnydd cynharach. Mae'r nodiant mewn "tablature" a ddefnyddiai lythrennau yn lle nodau ar yr erwydd. Yn anffodus nid oes cytundeb ynglŷn â dehongli'r cyweiriadau. Dyna'r gerddoriaeth i gyd sydd ar gael, am wn i. Felly mae'n rhaid dibynnu ar enwau alawon sy'n ymddangos uwchben geiriau i gerddi, neu restrau o enwau mewn llawysgrifau. Mae rhestrau, yn perthyn i ddegawd olaf yr unfed ganrif ar bymtheg a dechrau'r ganrif nesaf, sy'n rhoi awgrym o newidiadau cerddorol yr amser - ac mae ychydig o enwau'r cyfnod hwnnw yn ymddangos yn llawysgrif Richard Morris. Yn *Cambro Britannicae* 1592 mae Siôn Dafydd Rhys yn rhoi "Enwau cyweiriau celfyddyd Cerdd Dant"; mae rhagor yn llawysgrifau Peniarth, Wynn Gwydir, ac eraill; a rhai yn llawysgrif Robert ap Huw. Mae dwy gerdd sy'n cynnwys enwau alawon a thermâu cerddorol; un yw "Cân y Gwanwyn", Edmwnd Prys ac ymddengys y llall ar ddechrau *Bloedeu-gerdd Cymry* 1759, o dan y pennawd "Myfyrdod neu Ddeusyfiad Cantores, am gael ei gwisgo a rai o'r prif Geinciau, yn lle Dillad ..."; yn y gerdd mae termâu cerdd dant fel "Clymiad y profiadau" a "Bragod gywair dawel"; enwau alawon Cymreig fel "Sidanen" a "Mwynen Gwynedd"; ac enwau Seisnig fel "Queen Dido" a "Crimson Velvet". O'r rhestrau yma mae rhyw naw enw sy'n ymddangos, mwy neu lai, ar restrau Richard Morris - enwau fel "Caniad Hun Gwenllian", "Caingc Stwffwl", "Caingc y crythor du", "Ychain fannog" ac ati. Tua'r un amser mae rhywun (Cymro, mae'n debyg, a barnu o'r sillafiad) wedi nodi enwau alawon ar restr sydd wedi'i chadw ymhlith papurau ynglŷn â dathlu Nadolig yn Llewenni, 1595, er nad oes tystiolaeth o gwbl i gysylltu'r rhestr â'r telynorion a chrythorion oedd yno ar y pryd. Mae tua 80 alaw i ddawnsfeydd ar y rhestr, bron i gyd yn Seisnig, ac mae naw o'r rhain ar gael yn llawysgrif Richard Morris dros ganrif yn ddiweddarach, enwau fel "Greensleeves", "Peggy hath lost hur garter" (a aeth yn "Began a gollodd ei garddas" erbyn amser Richard Morris) a "Peggy Ramsdale" ("Pigransi").

O ble daeth gweddill yr alawon sydd wedi'u henwi yn llawysgrif Richard Morris? Yng Nghymru roedd y traddodiad cerddorol yn draddodiad llafar, ond cyhoeddwyd llyfrau alawon dawnsfeydd yn Lloegr a'r Alban a gwledydd y cyfandir, yn arbennig yr Eidal, Ffrainc a'r Iseldiroedd. Yn Lloegr un o'r ffynonellau alawon dawns oedd cyhoeddiadau *The Dancing Master* a ymddangosodd yn weddol reolaidd rhwng 1651 a 1728, ac a gynhwysai dros fil o alawon gwahanol yn y gyfrol gyntaf, heb sôn am gyhoeddiadau eraill fel *Caledonian Country Dances*, *Musick's Recreation of the Viol*, a llyfrau alawon ar gyfer dysgu chwarae offerynnau. Roedd casgliadau fel *Wit and*

Mirth: or, Pills to Purge Melancholy yn cynnwys baledi ac alawon y theatr. Fe gafodd Richard Morris wersi cerddorol, ac fe ddysgodd ganu'r delyn yn ogystal â chael gwersi canu ac mae'n bosibl iddo fo ddysgu alawon o lyfrau Saesneg. Yn ei lawysgrif mae'n nodi:

171? yr un flwyddyn y dechreuais Ganu ffidil, ar Wul Fair ...

1720 yn dysgu canu hefo Theoph. Huws o'r Duwmares
yr un flwyddyn y dechreuais Ganu Telyn yn Nherm Eilian yn Awst,
gan Rys Gray, mab Huw Gray o Borthaethwy.

Mae'n ddiddorol gweld bod Richard Morris wedi defnyddio Saesneg i benawdau dwy restr: "The names of the tunes that I can sing on the viol", a "Names of tunes as foloweth". Mae enwau Saesneg gan fwyaf yr alawon roedd o'n gallu eu chwarae ar y feiol ac mae'r rhan fwyaf o'r rhain i'w darganfod yn *The Dancing Master* neu *Pills to Purge Melancholy* a llyfrau baledi. Mae rhai alawon o'r Alban ac un o'r enw "Irish Trot" hefyd. Ond tua thraean o'r alawon a chwaraeai ar y feiol oedd yn Gymreig ac mae'n rhaid iddo fod wedi'u cael nhw ar lafar. O ble daeth y rheiny? Er bod rhai yn awgrymu i alawon di-rif ddod i mewn gyda'r porthmyn, mae'n debycach bod alawon offerynnol fel y rhain wedi dod trwy offerynwyr - telynoriaid ffidlwyr - oedd o bosib yn eu dysgu nhw ar lafar eu hunain. Mae'r sillafiad yn awgrymu hyn. Dyna sy'n gyfrifol am enwau fel "Pigransi" ("Peggy Ramsey") "Contraboncin" ("Country bumpkin") a "Boni dawn di" ("Bonny Dundee"). Byddai hyn yn cyfrif am y ffaith fod ambell i alaw yn ymddangos fwy nag unwaith o dan enwau gwahanol. Er enghraifft, mae Richard Morris yn nodi enw alaw, "Scotch Haymakers" fel un o'i "Enwau mesurau" ac mae hi hefyd yn ymddangos ar y rhestr hir. Defnyddiwyd "Scotch Haymakers", fel dawns yn ogystal ag alaw faled ac mae'n ddiddorol nodi bod y pennill cyntaf yn cynnwys pedair brawddeg sy'n ymddangos fel teitlau i ganeuon yng Nghymru. Dyma'r pennill:

Twas within a mile of *Edinborough town*
In the rosy time of the year
When the flowers were bloom'd and grass was down
And each shepherd woo'd his dear.
Bonny Jocky blithe and gay,
Kiss'd sweet *Jenny making hay*
The lassie blush'd and frowning said
No no it wonna do
I cannot, cannot, wonnot wonnot, maunot *buckle to*.

Mae'n amlwg bod y gân yn boblogaidd yng Nghymru oherwydd yn ogystal â nodi enw "Scotch Haymakers", mae "Edinburgh town" a "Gini making

hea" yn ymddangos ar restr hir Richard Morris fel alawon unigol. Cyn ei amser o roedd un cyhoeddiad, *Carolau a Dyriau Duwiol*, yn cynnwys cerdd ar yr alaw "Bonny Jockey". Yn y ganrif nesa yn *Melus-Seiniau Cymru*, llawysgrif Ifor Ceri tua 1820, cawn alaw o'r enw "Dal atto or Buckle to", sy'n amrywiad o'r alaw "Scotch Haymakers" fel mae'n ymddangos yn *The Dancing Master*. Beth bynnag mae'n bwysig nodi nad yw geiriau *Melus-Seiniau* yn gyfieithiad neu'n addasiad o'r gân Albanaidd - prawf unwaith eto bod y Cymry yn defnyddio'r alawon i'r dibenion eu hunain. Mae alaw arall yn llawysgrif Richard Morris hefyd wedi'i chynnwys o dan fwy nag un teitl. Enw arall ar "Since Celia's my foe" oedd "The Irish Tune", ac mae'r ddau enw'n ymddangos ar y rhestr yn ogystal â "Sel imi ffo". Ar ôl amser Richard Morris daeth "Since Celia's my foe" yn "Synselia" a dyna'r enw ddefnyddiwyd gan y baledwyr Cymreig am yr alaw.

Oherwydd bod cymaint o enwau Saesneg yn llawysgrif Richard Morris mae'n deg i ofyn faint ohonynt oedd yn gyfarwydd iddo fo. Ymhlith enwau ar y rhestr hir mae 137 sy'n ddigamsyniol Saesneg, y rhan fwyaf i'w cael yn *The Dancing Master*. Ond a oedd Richard Morris yn gwybod yr alawon hyn ei hun, ynteu a gafodd yr enwau oddi wrth gerddorion crwydrol a hynny'n cyfri am y sillafiad rhyfedd? Mae'n debyg ei fod o, neu rywun, wedi copïo rhai enwau o lyfrau dawns i roi yn y llawysgrif. Ar ddiwedd y rhestr hir mewn inc gwahanol (a barnu o'r ffilm yn y Llyfrgell Genedlaethol) mae pedwar enw ar hugain o ddawnsfeydd sydd ar gael yn *24 New Country Dances for the Year 1716* "Humbly dedicated to Watkin Williams Esqr by his most humble servant Nate Kynaston" — yn ddiweddarach Syr Watkin Williams Wynn, noddwr John Parry Ddall. Mae'r pedwar enw ar hugain yn ymddangos yn yr un drefn a sillafiad yn llawysgrif Richard Morris ag yn y llyfr, ond nid oes ragor o sôn am yr alawon gan Richard Morris na chan gerddorion eraill Cymru.

Mae ffordd i gadarnhau'r alawon yr oedd Richard Morris ei hun yn eu derbyn fel alawon Cymreig. Ym 1779, y flwyddyn y bu farw, anfonodd Richard restr o alawon at Edward Jones, Bardd y Brenin, o dan y pennawd "Henwau Mesurau Cerdd Dafod a Thant a arferir yn gyffredinol gan y Prydyddion a'r Telynorion yng Nghymru". Mae tua chant a deugain o enwau ar y rhestr yn dod o'i lawysgrif, gyda llawer o newidiadau yn y sillafu. Mae o wedi cynnwys rhai enwau alawon Seisnig poblogaidd yng Nghymru fel "King's Farewell" a "Greece and Troy"; mae o hefyd wedi cyfieithu rhai enwau Seisnig i'r Gymraeg — nid yn fy marn i er mwyn twyllo pobl, ond oherwydd ei fod o'n eu cymryd nhw fel alawon Cymraeg gydag enwau Saesneg; daw "The banks of Ireland" yn "Bryniau'r Iwerddon" a "Cow heel" yn "Sawdl buwch". Ond mae Richard Morris yn newid rhai enwau'n rhyfeddol mewn ymdrech i Gymreigio rhai ohonyn nhw. Mae'n amlwg ei fod yn credu eu bod nhw'n enwau Cymreig yn y bôn, wedi'u llygru gan y Saeson, ac mae'n ddyletswydd arno fo eu newid nhw yn ôl i'r Gymraeg.

Mae'r canlyniadau'n gallu bod yn chwerthinllyd: "Rogero", alaw o'r Eidal, yn mynd yn "Rhaid sirio", "Monsieur's Almain" yn "Hen Syr Salmon", "Grymanders Galliard", yn "Goreuman drws Galia". Ond cofiawch, nid oedd reswm o gwbl i'r Cymry feddwl bod yr alawon hyn yn Seisnig, ac yn wir, yn 1742 fe ymddangosodd y tair alaw uchod yn y llyfr *Antient British Music*, fel cynhyrchion beirdd a cherddorion hynafol. Unwaith eto, nid oedd gan y telynorion, John Parry Ddall ac Ifan Wiliam, fwrriad o dwyllo'r cyhoedd. Yn ôl Margaret Dean-Smith, awdurdod ar gerddoriaeth draddodiadol Lloegr, yr honiad gan John Parry Ddall nad oedd gan y Saeson, o holl bobloedd Prydain Fawr, ddim cerddoriaeth eu hunain, oedd yn gyfrifol am ymdrechion ysgolheigion fel William Chappell i dyrchu mewn hen lawysgrifau er mwyn gwrthbrofi'r cyhuddiad. Mae'n amlwg bod llawer iawn o'r alawon o ffynonellau di-Gymreig wedi hen farw yn Lloegr a'r cyfandir, ond yn aros yn boblogaidd yng Nghymru oherwydd eu cysylltiadau â'r delyn neu â geiriau.

Mae arwyddion eraill o boblogrwydd yr alawon a enwir gan Richard Morris. Ar ôl amser y llawysgrif, mae llyfrau printiedig gydag alawon Gymreig yn dechrau ymddangos. Yn ogystal ag *Antient British Music*, fe gyhoeddodd John Parry Ddall *A Collection of Welsh, English and Scotch Airs*, 1761, ac o fewn ychydig i'w farw, *British Harmony*, 1781. Ymhen tair blynedd fe ddechreuodd Edward Jones, Bardd y Brenin, gyhoeddi ei weithiau mawr, *Musical and Poetical Relicks of the Welsh Bards, The Bardic Museum, a Hen Ganiadau*. Mae llawer o enwau alawon Richard Morris i'w cael yn y llyfrau hynny. Mae enwau alawon hefyd mewn llyfrau barddoniaeth fel *Carolau a Dyriau Duwiol a Blodeu-gerdd Cymry*, gweithiau Huw Morus a charolwyr eraill fel Jonathan Hughes, ac alawon i faledi ac mewn anterliwtiau. Gwelir llawysgrifau Margaret Davies, Trawsfynydd a Dafydd Jones o Drefriw yn llawn o enwau alawon; ond am gerddoriaeth boblogaidd y cyfnod fe gawn ni droi at ddwy lawysgrif offerynnol gan ddau ffidler, John Thomas, o Bowys mae'n debyg, yn 1752 a Morris Edwards o Sir Fôn, yn 1778. Rhwng popeth, mae'r ffynonellau yma'n rhoi sail i ni ddadansoddi poblogrwydd alawon Richard Morris yng Nghymru yn gyffredinol. Y peth mwyaf trawiadol yw hyn: o'r 60 alaw mwyaf poblogaidd yng Nghymru yn y ddeunawfed ganrif, yn cynnwys alawon dawns fel "Meillionen" neu "Spanish Pavan", fe ganwyd penillion i bron bob un.

Ac yn awr mae'n rhaid i ni fynd yn ôl at yr honiad bod Cymru wedi'i boddi gan alawon yn llifo i mewn o Loegr. Wel, fe lifodd yr alawon i mewn. Ond fe lifodd y rhan fwyaf allan eto. Pethau byrthodlog oeddyn nhw. O'r pymtheg alaw mwyaf poblogaidd yng Nghymru trwy'r ganrif, dim ond dwy neu dair sy'n ddigamsyniol ddi-Gymreig: "Y fedle fawr", o alaw Albanaidd o'r unfed ganrif ar bymtheg; "Queen's dream", sy'n amrywiad o alaw Duduraidd, "The Queen going to Parliament"; ac o bosib "Sweet Richard".

Daeth y rhan fwyaf o'r alawon Seisnig yn boblogaidd dros gyfnod yng Nghymru wedi cychwyn fel alawon baled, yn hytrach na dawnsfeydd. Nid oes fawr ddim arwydd o'r alawon di-rif a gyhoeddwyd yn *The Dancing Master*, ar wahân i rai yn llawysgrif John Thomas, ffidler, a chwaraeodd, mae'n debyg, yn y plastai, yn ogystal â mannau eraill mwy di-nod.

Mae'n amlwg bod y Cymry'n defnyddio rhai alawon, nid oherwydd eu swyn melodig neu eu bywiogrwydd, ond oherwydd eu posibiliadau barddonol. Mae un alaw yn llawysgrif Richard Morris, "Let Mary live long", a sgrifennwyd i ddathlu dyrchafiad y Frenhines Mary i'r orsedd yn niwedd yr ail ganrif ar bymtheg. Fe dynnwyd sylw'r beirdd at y gân oherwydd patrwm cymhleth y pennill; rhoddodd gyfle iddyn nhw ddangos eu medrusrwydd wrth drin y mydr.

Fe hoffwn i gloi trwy dynnu'ch sylw at ddau ddarn sy'n dangos ehangder diddordebau Richard Morris a'i frawd. Ysgrifennodd Lewis Morris bennill yn y llawysgrif, a'i alw "Cwlwm iw roi ar ben carol gwirod ar Coliers daughter", tôn newydd a ddaeth allan yn *The Dancing Master* ddwy flynedd yn ddiweddarach. Ar dudalen arall fe gawn ni "Cwlwm Foukun ar arglwudd llewelun" sy'n cynnwys penillion gwirebol: "Eira mynudd rhudd ar celli ...". Mae'r gair "cwlwm" i'w gael fel term cerddorol yn yr ysgrifau cerdd dant, ond yn fwy diddorol byth, mae enw'r alaw yn ymddangos yn "Englynion y misoedd" (*Canu Rhydd Cymnar*, 246):

gorav kaingk ar y delyn
kaingk yr arglwydd lywelyn

Mae Cwlwm Foukun yn gymhleth, gyda newidiadau cyson yn y mydrau barddonol, ac mae'n anodd gwybod sut y cenid y geiriau. Yn ffodus, yn y *Bardic Museum*, Edward Jones, 1802, mae alaw o'r enw "Caingc Llywelyn", sy'n ffitio'r geiriau, mwy neu lai. Mae'n rhesymol casglu na fyddai'r datgeiniad yn dilyn rhediad yr addurniadau offerynnol: yn hytrach, cadwai'n ffyddlon i'r acenion a'r harmoni sylfaenol.

Yn ôl T.H. Parry-Williams, golygydd *Canu Rhydd Cymnar*, gallai'r penillion fod mor hen â'r bymthegfed ganrif. Felly fe all ystod y canu yn llawysgrif Richard Morris ymestyn o'r bymthegfed ganrif hyd at ddechrau'r ddeunawfed.



eira a mynudd rhudd ar ffo nid ymgudd cariad b[yth] lle bo, Eira



mynydd rhudd ar celli naw duw rhagot ti ddyreidi... mae



eira ar y fron mae tem-hestl ar y don mae



cei- rw yn yr allt ir for- wyn l- reiddwallt... pei



doit yn nes i gwr y llwun grefftwr mwun odli mith fodlonwn



yn y man er cael or gwan lettu... y- fi y- mor-



gan-nwg yn hel y cre- gin gyn- ne a doe- thim ir



ba- la dan go-di hen ffe- lacha...

[Traddodwyd yr uchod i aelodau Cymdeithas y Bedol, Aberystwyth, 3 Rhagfyr 1993.]

HWBWB YNG NGHYSMOEDD TAF A RHONDDA

E. Wyn James

Beth amser yn ôl yn y *Western Mail*, (29.8.92), yn yr atodiad *Property Mail* a ddaw bob dydd Sadwrn, cafwyd ymholiad ynghylch ystyr Trehwbwb, sef enw bwthyn ym mhlwyf Llwyneliddon, ar gyrion gorllewinol dinas Caerdydd (nid nepell o ganolfan HTV yng Nghroes Cwrlwys). Ystyr "hwbwb", yn ôl *Geiriadur Prifysgol Cymru*, yw "dadwrdd, dwndwr, halibalw", ac awgrym yr Athro Gwynedd O. Pierce yn *The Place-Names of Dinas Powys Hundred* (1968) yw mai "tirwbwb" oedd y ffurf wreiddiol ar yr enw yn ôl pob tebyg, ac y gall mai cyfeirio at dir yr anghytuned yn ei gylch y mae'r enw: "The word *hwbwb* may well have the meaning of "dispute, disagreement", as lands in disputed ownership have names which suggest this fact" (t. 270).

Cefais f'atgoffa gan y sôn am Drehwbwb am ddau driban a glywais ar lafar ryw ddwy flynedd ynghynt. Yn Hydref 1990 bûm yn siarad yng Nghymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd am ganu gwerin Cwm Taf a'r cyffiniau. Dechreuais drwy sôn am hwiangerddi. Roedd y Dr Ceinwen H. Thomas yn bresennol, ac yn y drafodaeth ar y diwedd, adroddodd ddau driban (ynghyd a chwpled clo) a glywsai pan oedd yn blentyn ym mhentref Nantgarw, ar waelod Cwm Taf, ar ddechrau'r ganrif. Dyma'r nodyn a gefais ganddi ymhen rhai dyddiau ar ôl y cyfarfod, yn cofnodi'r tribannau a'r cwpled yn y ffurf dafodieithol y'u hadroddwyd iddi:

Fi glwas sŵn a rwb-dwb
Pin own yn nyffryn Danwb,
A gin mor erchyll odd y sŵn
Fi alswn widdi "Iwb-bwb"!

Odd ciant o dirw cyn-dwb
Bob dou yn ymladd dwb-dwb
A fi'n y cenol rhwng y rhein
Yn gwiddi'n ychal "Iwb-bwb"!
Yng genol ciant o dirw gwyllt
Mae'n bryd i widdi "Iwb-bwb"!
Fy nhad-cu, Daniel Davies, a arferai ganu'r uchod i'm mam yn blentyn. Cafodd ef ei godi ar Fynydd Caerffili ond ei fam, Mam-gu'r Mynydd, mewn tyddyn yn ymyl Capel Martin yng Nghaerffili.
Dichon mai canig o ochr Caerffili yw'r uchod yn wreiddiol, felly. Ni wn.

(Tipyn o gymeriad oedd Mam-gu'r Mynydd, gyda llaw. Ceir rhywfaint o'i hanes mewn erthyglau gan Dr Thomas yn *Y Cymro*, 11 Ionawr 1962, ac yn *Bwletin Cymdeithas Emynau Cymru*, cyf. 3:1, 1988-89).

Yn ôl *Geiriadur Prifysgol Cymru*, daw'r gair "hwbwb" o'r Saesneg *hubbub*. Awgryma'r *Geiriadur* mai benthyciad o'r un gair Saesneg yw "iwbwb", sy'n golygu "cri, twrw, wwbw"; ac yn ddiddorol iawn yn y cyddestun presennol, ychwanega'r *Geiriadur* fod Cwm Iwbwb "yn enw ar gwm bach wrth ochr heol Mynydd Caerffili". Ychwanegodd Dr Ceinwen Thomas mewn nodyn a gefais oddi wrthi mai "cwm ar Fynydd Caerffili y tu ôl i Eglwys Fartin yw Cwm Iwbwb - cwm cul wrth ochr yr heol sy'n dringo'r mynydd o Gaerffili tuag at Heol Draenen Pen-graig a Chaerdydd". Ac yn wir, wrth ddringo heol y mynydd o Gaerffili i gyfeiriad Caerdydd, y mae'r arwydd mawr "Cwmwbwb Kennels & Cattery" i'w weld ar y dde, wrth y trod sy'n arwain at hen dŷ mawr i lawr yn y cwm. Rhaid fod yna gryn hwbwb yn y cwm y dyddiau hyn!

Mae'n amlwg mai o draddodiad llafar y cafodd Daniel Davies y tribannau uchod, gan na allai ddarllen. Byddai'n canu'r tribannau a'r cwpld i'w ferch, mam Dr Thomas, gan siglo'r plentyn ar ei goes wrth wneud hynny. Yn ffodus, trosglwyddwyd y dôn yn ogystal a'r geiriau i Dr Thomas gan ei mam. Dyma'r alaw fel y'i canwyd gan Dr Thomas:



Trwy gyd-ddigwyddiad diddorol, tua'r un adeg ag y clywais y tribannau hyn gan Dr. Ceinwen Thomas, ymddangosodd fersiwn arall ar yr un tribannau ar dudalennau'r *Traethodydd*, sef yn rhifyn Gorffennaf 1990, mewn erthygl gan Miss Beti Rhys ar fywyd llenyddol Pontypridd a'r cylch. Tynnu ar atgofion ysgrifenedig ei thad, y Parch. J.E. Rhys ("Ap Nathan"), a wnaeth Miss Rhys yn yr erthygl honno, gan gyhoeddi yno gyfanswm o bedwar triban yn terfynu â'r gair "wbwb"; ac fe gyhoeddodd Ap Nathan ei hun y pedwar triban hyn, bron yn union fel y'u ceir yn erthygl Miss Rhys, yn ei lyfr sy'n portreadu nifer o hen gymeriadau Cwm Rhondda ar ddiwedd y ganrif ddiwethaf: *Cymeriadau Cefn Gwlad* (1948), t. 34.

Mewn llythyr ataf bu Miss Rhys mor garedig a'm cyfeirio at erthygl gan dad ei thad - sef Nathan Wyn (Jonathan Rees, 1841-1905) o Ystrad Rhondda, a brawd yr Archdderwydd Dyfed - a ymddangosodd yn *Y Geninen* yn Hydref 1897 (tt. 221-3). Erthygl dan y pennawd "Mynydd Penrhys" ydyw, sef y mynydd a saif rhwng cymoedd Rhondda Fawr a Rhondda Fach - safle hen fynachlog nid anenwog yn yr Oesoedd Canol a stad o dai cyngor nid anenwog yn ein dyddiau ni! Yn yr erthygl ceir sôn am ymryson barddol a gynhaliwyd mewn tafarn yn Ystrad Rhondda, wrth droed Mynydd Pen-rhys, tua dechrau teyrnasiad Fictoria, pan oedd Cwm Rhondda o hyd yn gwm gwledig, a'i boblogaeth yn llai na mil:

Yn ymyl godreu Rhiw Penrhys y saif Gwesty y *Star*, Gelli Dawel, lle yr arferai y beirdd cymydogathol, yn ystod y ganrif ddiweddaf [sef y ddeunawfed ganrif,] gynol eu cyfarfodydd. Tua thri ugain mlynedd yn ôl [sef tua 1837] cynhaliwyd Cyfarfod y Beirdd yno, pan y rhoddwyd "Wbwb" yn brif destun. Y mesur oedd Triban Morganwg; ac yr oedd yn rhaid i bob llinell gydodli a'r testun.

Dyma'r cwbl ydym yn ei gofio o'r penillion:-

Mi welais grythwr troed-glwb,

Yn gwisgo esgid flaen-dwb

Ar noson ddu yn Mychudd Main,

Mewn llif yn llefain "Wb-wb"!

J. Morgan (Shams Cefntylcha).

Llantrisant.

Wrth weled llew mewn gwael-gwb,

A cheffyl gwyllt heb ffrwyn-grwb,

A dyn disynwyr gyda rhain,

Gallaswn lefain "Wb-wb"!

Job y Teiliwr

Llanwyno.

Mi glywais drwst neu rhyw-rwb,

Wrth groesi dyffryn Danwb;

A chan mor erchyll oedd ei sain,

Gallaswn lefain "Wb-wb"!

E. Moses (Iantus o'r Ynys).

Ynysybwll.

Pe cant o deirw cyrn-dwb,
Pob dau yn ymladd dwp-dwb;
A minnau'n sefyll rhwng y rhain,
Mi allwn lefain "Wb-wb"!

T. Llewelyn.

Ystrad-dyfodwg.

Ymddengys mai yr olaf a farnwyd yn fuddugol; ac fe ddichon y gall hyn wasanaethu i ddangos y fath feirdd a fynychent y lle yn y ddeunawfed ganrif, a pha beth ydoedd nodweddi eu testynau a theilyngdod eu barddoniaeth.

Ceir seren wrth y gair "Danwb" yn y trydydd triban, a nodyn godre yn egluro ei fod yn enw ar le ym mhlwyf Llanwynno! Dylid egluro mai nant ychydig i'r dwyrain o Donyrefail, ac nid nepell o gartref y tribannwr Siams Cefn Tylcha, yw "Mychydd" y triban cyntaf. "Nant fechan yn codi ger Ton-yr-efail ac yn rhedeg i Elái i'r gorllewin o Lantrisant" yw disgrifiad R. J. Thomas ohoni yn *Enwau Afonydd a Nentydd Cymru* (1938), t.64, ac yn ôl R. J. Thomas, ffurf lafar ar y gair *muchudd* ("carreg ddu") yw'r enw. Yn ei eiriadur (1753), dywed Thomas Richards, Llangrallo, i'r nant gael yr enw hwnnw "because its waters are of a jetty or blackish colour, as flowing from coal-mines".

Yr un pedwar triban a gyhoeddwyd gan Miss Beti Rhys yn ei herthygl yn *Y Traethodydd* (t. 133), a chan Ap Nathan ei thad o'i blaen, heblaw am ddau neu dri o fân wahaniaethau. Mae dwy linell olaf y triban olaf ond un, er enghraifft, yn darllen "A chan mor erchyll oedd y sain/Mi allsw'n lefain Wb! wb!" yn fersiwn Miss Rhys, a dwy linell olaf y triban olaf yn darllen "A mi'n y canol rhwng y rhain/Mi allsw'n lefain Wb! wb!" - darlleniadau sydd ychydig yn nes at fersiynau Dr Ceinwen Thomas ar y ddau driban hynny. Evan Moses yw awdur yr ail driban a Job y Teiliwr yw awdur y trydydd yn ôl Miss Rhys a'i thad (a ffynonellau eraill), yn hytrach nag fel arall.

Fe ddywed Miss Rhys mai "hen eiriau'n dynodi syndod, tebyg i "Well wel" ond yn gryfach eu hystyr (oedd "Wb! wb!"). Fe'u clywir heddiw ar wefusau'r hen frodorion" (tt. 132-3); a dywed ei thad yn *Cymeriadau Cefn Gulad* fod "wbwb" yn air a ddefnyddid yn y cylch fel math o ebychiad yn dynodi syndod, - gair cyfarwydd a chyffredin fel "Yr arswyd mawr," neu'r "Argian fawr" (t. 34). Yn ôl Dr Ceinwen Thomas, ystyr y gair "iwbwb" yn iaith Nantgarw oedd "sŵn a chyffro mawr", ac fe'i defnyddid yn gyffredin yn y cyfuniad "iwbwb myrdar", sef math o waedd a glywid mewn cyffro mawr. Dyma dair enghraifft o'r defnydd o'r gair yn iaith Nantgarw a gefais mewn nodyn gan Dr Thomas: "Chlŵas i shwd iwbwb ariôd ag odd 'na"; "Wn i ddim beth odd, ond odd pawb yn gwiddi iwbwb myrdar!"; "Mae'n iwbwb myrdar yma, fi wela! Beth yw'r "oll fwstwr 'yn?" (gweler ymhellach astudiaeth gynhwysfawr Dr Thomas o Gymraeg llafar Nantgarw, *Tafodiaith Nantgarw*, a gyhoeddwyd mewn dwy gyfrol gan Wasg Prifysgol Cymru ar

ddiwedd 1993, ar ôl imi offren ysgrifennu'r erthygl hon). Digwyddais daro ar yr ymadrodd "iwbwb myrdar" mewn cerdd gan David Morgan, Cwm-twrch, "Cân Ddigrif Yn rhoi desgrifiad o'r Badwyr ar Gamlas Cwmtawe", a gyhoeddwyd yn y gyfrol *Gardd y Gweithiur* (1861) ac a ailgyhoeddwyd yn y gyfrol *Cwm Tawe*, gol. Hywel Teifi Edwards (1993), tt. 171-3:

Nes i lawr i mi glyws gegledi, "Iwb! Wb! *Murder*," gan Dai Nani;
Pwy oedd yno ond Twm Nedi, 'n curo Dai nes oedd e'n gwelw.

Yn ôl Dr Ceinwen Thomas, ymadrodd gwahanol a ddefnyddid yn Nantgarw pan fyddai'r sŵn a'r cyffro yn llawen, ymadrodd sydd bellach yn un cyhoeddwyd iawn yng nghylchoedd dawnsio gwerin. Dyma'r nodyn a gefais ganddi ar y mater (a'r symbol æ yn cynrychioli'r e agored hir sy'n nodwedd ar y Wenhwyseg ac ar iaith sir Drefaldwyn):

Erbyn heddiw, enw dawns werin yw Rali Twm Siôn, ond yn fy mhlentyndod i, pan oedd dawnsio gwerin wedi darfog yn llwyr yn Nantgarw ar wahan i stepo Tomi bach y Star, ystyr yr ymadrodd Rali Twm Siôn yn nhafodiaith yr ardal oedd "sŵn a miri mawr". Petai sŵn mawr a llawer o chwerthin afreolus yn dod o rywle, yn enwedig petai'n mynd ymlaen ac ymlaen, byddai rhywun o fewn clyw yn sicr o ddweud: "Mae'n Rali Twm Siôn mywn 'co, on'd yw 'i? Beth sy'n mynd mlaen 'co?" Cofiaf hyn yn cael ei ddweud am ddyn a oedd â'r ddawn i droi cwmni tawel yn gwmni llawn llawenydd a hwy! mawr: "Dyna fachan yw Dafydd 'yng ngendar! Os bydd e yn y cwmni, mae'n mynd yn Rali Twm Siôn yno mywn dim amsar!"

Fel y dywed Dr Menna Davies yn ei thraethawd doethuriaeth anghyhoeddedig, "Traddodiad Llenyddol y Rhondda" (Traethawd Ph.D. Prifysgol Cymru: Aberystwyth, 1981): "Y triban oedd prif ddull mynegiant beirdd gwlad y Rhondda yn ystod y canrifoedd cyn y diwydiannu" (t. 48), a phwysleisia ymhellach mai cael eu trosglwyddo *ar lafar* o genhedlaeth i genhedlaeth oedd hanes y tribannau hyn. Yn ei erthygl ar yr iaith Gymraeg yn y gyfrol *Rhondda Past and Future*, gol. K. S. Hopkins (1975), t. 182, nodi'r Athro Ceri W. Lewis enwau nifer o dribanwyr Cwm Rhondda a'r cyffiniau yn hanner cynta'r ganrif ddiwethaf:

Among the more notable *tribanwyr* who sang in the Rhondda or in some of the neighbouring parishes in the first half of the nineteenth century were Twm Hywel Llywelyn (1780-1851), the carpenter from Blaen-y-cwm, Evan Llywelyn, Dafydd Rhywglyn, Llywelyn Morgan [=Jones?] ("Llywelyn Bili Siôn"), Harri Rheinallt and Wil Cadwgan from Ystradyfodwg, James Morgan ("Siams Cefan Tylcha") from Tonyrefail, and Job Morgan the Tailor and lantws Hendre Rhys from Lanwynno.

Fel y gwelir, yn eu plith ceir enwau'r pedwar y cyhoeddwyd uchod eu tribannau yng nghystadlaeth yr "wbwb", sef James Morgan ("Siams Cefn

Tylcha'), Job Morgan y Teiliwr, Evan Moses ("Iantws Hendre Rhys") a'r buddugwr, yn ôl Nathan Wyn, sef Tomos Hywel Llywelyn - yr unig un o'r pedwar a ddeuai o Gwm Rhondda ei hun. Diddorol, hefyd, yw nodi mai hwy yw'r pedwar a enwir fel "tribanwyr enwocaf y cylch yn ystod y ganrif ddiwethaf" yn erthygl J. Dyfnallt Owen, "Awen y Rhondda Gynt", yn *Trafodion Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrodorion*, 1945 (erthygl a ailgyhoeddwyd ganddo yn 1952 mewn cyfrol yn dwyn y teitl *Rhamant a Rhyddid*); ac ychwanega Dyfnallt: "Bu llawer o gystadlu rhwng y rhai hyn ar Dribannau" (t. 53).

Enwir y pedwar hefyd gan Thomas Williams ("Brynfab"; 1848-1927) mewn erthygl yn *Y Geninen* yn 1912 wrth iddo drafod Thomas Williams arall, sef Thomas Williams ("Gwilym Morganwg"; 1778-1835):

Cyfaneddai Gwilym Morganwg yn y *New Inn* [ym Mhontypridd] Tribanwyr oedd yn enwog yn Morganwg yn oes Gwilym. Tyrent o bob cyfeiriad tua gwesty y bardd ar ddiwrnod marchnad. Deuai Twm Hywel Llewelyn o flaen Cwm Rhondda, Siams Cefn Tylchau o ardal Tonyrefail, Job y Teiliwr a Iantws Hendre Rhys o Lanwyno, a Twm Galfynydd o gymdogaeth Llanfabon. Yr oedd Evan Cule ... yn byw yn y Bont. O dan ysprydoliaeth Gwilym Morganwg a'i "*home brewed*" yr oedd pob bardd yn prydyddu ... Mae llawer o'r hen dribannau ar gael. Bu yn gystadleuaeth rhyngddynt unwaith ar wneud triban i ddiweddu gyda'r gair "iwb-wb;" a dyma'r un enillodd:

Cant o deirw cornddb,
Pob dau yn ymladd dwp-dwb;
A finau'n sefyll rhwng y rhain; -
Pwy waedd'sai lai na iwb-wb.

Er nad yw yn gwbl eglur o'r cyd-destun, ymddengys mai awgrym Brynfab yma yw mai yn nhafarn y "New Inn" ym Mhontypridd y bu ymryson yr 'wbwb', a hynny yn ystod oes Gwilym Morganwg, sef rywbryd cyn ei farw ar 13 Awst 1835. Dyna awgrym Gomer M. Roberts hefyd yn *Cruydrô Blaenau Morgannwg* (1962), t. 74, a chyhoeddir ganddo fersiynau ychydig yn wahanol eto ar dribannau Tomos Hywel Llywelyn, Siams Cefn Tylcha ac Evan Moses (ond gan ddweud am ryw reswm mai un o Ferthyr oedd Evan Moses):

Cant o deirw cornddb,
Pob dau yn ymladd dwbdwb;
A finna'n sefyll rhwng y rhain -
Fi allaswn lefain wbwb!

Fi welais grythor troedglwb,
A chanddo esgid flaenglwb,
Ac hefyd ddyn ym Mychydd fain
Mewn llif yn llefain wbwb!

Fi welais lo mewn gwaelgwb,
A cheffyl ffôl a ffrwyngwb,
A dyn di-synnwyr gyda'r rhain -
Fi allsw'n lefain wwbw!

Dywed Gomer Roberts fod beddrod Siams Cefn Tylcha ym mynwent Llanrisant yn dangos iddo farw yn 1834 (t. 62), ac felly rhaid fod ymryson yr 'wbwb' wedi digwydd cyn hynny.

Yn ei "ffugchwedl" *Pan oedd Rhondda'n bur*, y mae Brynfab yn neilltuo pennod IX i sôn am Tomos Hywel Llywelyn a'r prydyddion eraill yn cyrchu Pontypridd ar gyfer cyfarfod o'r beirdd yn y "New Inn". Mewn cenhedlaeth ddiweddarach, symudodd cyrchfan y beirdd o'r "New Inn" yng nghanol tref Pontypridd i'r 'Llanover Arms', a gedwid gan y bardd a'r crydd, Evan Richard ("Meudwy Glan Elái"), ac sydd i'w gweld o hyd ar yr ochr ddwyreiniol i afon Taf ger y briffordd sy'n arwain o Gaerdydd i Ferthyr Tudful. Bedyddiwyd y gymdeithas farddol yno yn "Glic y Bont" (gw. erthyglau Dafydd Idris Edwards a Dafydd Wyn Morse yn y gyfrol *Rhwng Dwy Afon* gol. David A. Pretty, a gyhoeddwyd gan Bwyllgor Llenyddiaeth Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Taf-Elái, 1991). Mae'n ddigon posibl mai trwy "Glic y Bont" y cyrhaeddodd tribannau'r "wbwb" deulu Dr Ceinwen Thomas yn Nantgarw, oherwydd yr oedd ei thad-cu, Daniel Davies, yn cydweithio ag un o aelodau amlwg y Clic. Dyma nodyn a gefais ganddi yn sôn am y cysylltiadau rhwng y ddau, ac yn rhoi hefyd rywfaint o hanes bardd talcen slip yn ei theulu hi ei hun:

Glöwr oedd fy nhad-cu, tad fy mam, a threuliodd lawer o'i flynyddoedd dan ddaear yn gweithio ym mhyllau gwaelod Cwm Rhondda: pwll y "Western" yn ymyl Pontypridd, a phwll Tŷ-mawr gerllaw iddo. Yn un o'r pyllau hyn, y colier a fu'n gweithio yn ei ymyl oedd Coslett Coslett (1834-1910), sef y bardd Carn Elian, a oedd yn aelod o "Glic y Bont". Byddent hwy a glowyr eraill yn arfer cydeistedd i gael "sbel" ac i fwyta eu bwyd. Ac i sgwrsio. Ac un o'r pethau a fyddai'n difyrru'r cwmni oedd bod un ohonynt yn gofyn i Garn Elian, "Gnæ bennill ifi, Coss". A byddai "Coss" bob amser yn ufuddhau a phennill byrfyfyr - peth a enynnodd edmygedd fy nhad-cu'n fawr. Cofiai fy mam fel y byddai'n adrodd wrth y teulu am y sesiynau hyn ac yn darfod gyda'r sylw: "Meddwl am farddoniath! Dyna fardd yw Coss!" I'm tad-cu, yr oedd gallu Carn Elian i gyfansoddi penillion yn sydyn ar orchymyn ei gydweithwyr yn arwydd o gryn ddawn farddonol. Yr oedd teulu Carn Elian yn byw ym mhentref y Groes-wen bryd hynny, "ar y Grôs" fel y dywedem yn Nantgarw, ac yr oedd tri ohonynt, o leiaf, yn gallu cyfansoddi, sef Carn Elian ei hun a'i frodyr Gwilym Elian a Tal Elian. [Yr oedd eu tad, Walter Coslett

("Shakespeare Eglwysilan"), hefyd yn un o'r beirdd a gyrchai'r "Llanover Arms" - gw. *Y Traethbodydd*, Gorffennaf 1990, t.134. Ar y teulu, gw. Joan N. Harding, "Dau Frawd o Sir Fynwy", *Barn*, 212 (Medi 1980), tt. 261-3.] Y bardd pwysicaf ohonynt ym marn yr ardal oedd Carn Elian, a'i frawd Tal Elian yn un a fyddai'n cynhyrchu penillion dychanol. Cofiai fy mam ryw bennill yn mynd o gwmpas adeg rhyw etholiad, ac er na wyddai neb pwy oedd yr awdur, credai pawb yn ddisigl mai gwaith Tal Elian ydoedd. Ysyaeth, ni chofiai fy mam ond y geiriau:

Bwch y Gwynt o'r Apar Fawr
Bili ddy Gws a'r ddoi "Just So!"

Llysenwau oedd yr enwau hyn ac yr oedd y 'ddou "Just So" 'yn perthyn i fam fy mam. Dau ddy'n busnes yng Nghaerdydd oeddynt ac yn medru Cymraeg yn iawn ond yn dangos eu pwysigrwydd trwy ychwanegu ambell "Just so" at y sgwrs! Aeth un ohonynt, Thomas Morgan, i Hamburg i wneud busnes ac ymsefydlu yno, gan briodi Almaenes. Dywedid yn y teulu fod un o'i ddisgynyddion ar ochr yr Almaen yn rhyfel 1914-18 a mab i'w frawd ym myddin Lloegr, a bod y ddau wedi dod wyneb yn wyneb yn y brwydro, rywdro, ac adnabod ei gilydd a chael sgwrs cyn lithro oddi wrth ei gilydd. Ni wn a oedd y fath beth yn bosibl, ond dyna a ddywedid yn ein teulu ni. Yr oedd tad-cu fy mam, "Neti Amwstwn" (sef Etwart mab Amwstwn Tomos) yn dipyn o fardd talcen slip ac felly'n arfer cael ei ddewis gan dafarndai Nantgarw i "giatw'r Feri mäs" adeg y Nadolig pan oedd "y Feri" (sef y Fari Lwyd) yn mynd o gwmpas. [Ceir peth o hanes ymweliadau'r Fari Lwyd â Nantgarw, a rhai o draddodiadau eraill y cylch, mewn erthygl gan Dr. Thomas yn *Llafar Gwlad*, 40 (Mai 1993).] Cofiai fy mam glywed bod ei thad-cu unwaith wedi gwneud pennill direidus i fab ei frawd - llanc a ddaeth wedyn yn dad i'm tad innau ac yn dad yng nghyfraith i'm mam! Yr oedd hwnnw, Jac, yn un i gysgu'n drwm ac, un tro, yr oedd wedi cael ei adael yn y tŷ ar ei ben ei hunan. Golygai hynny fod y cyfrifoldeb arno ef ei hun i ddiuno yn y bore. Felly, dyma fe'n dodi dau neu dri hambwrdd tun o amgylch y cloc larwm er mwyn i hwnnw wneud sŵn mawr wrth larmo yn y bore. Ond pan ddechreuodd y cloc larmo fe fu ei gryndod yn ddigon i wneud i'r hambyrddau lithro oddi ar y ford fach a rollo ar draws y llawr ac i lawr i'r stâr. Yr oedd y sŵn yn fyddaroll! Hanner dihunodd y cysgwr ac yn ei hurtrwydd neidiodd o'r gwely ac ar draws yr ystafell a tharo ei ddwrn drwy gwarel yn y ffenestr, gan ddiuno'n llwyr a'i ddwrn trwy'r ffenestr! Gwyddai y byddai ei ewyrth Neti yn falch o gael cyfle i lunio pennill i'r achlysur ac ymbiliodd ar bawb i beidio â dweud wrth "Mowrth Neti". Ond clywed a wnaeth hwnnw a phan ddaeth y ddau wyneb yn wyneb

mewn diwrnod neu ddau, fel hyn y cyfarchodd yr ewyrth y nai:
Rhod y felin falu a rhod y felin ban
Yn ffysto gida'i gilydd ynghyda chlych y llan;
Y llestri pridd a'r pewtar yn triclo'r 'yd y tŷ,
A chorda'r gwely'n torri - a chisgu 'nelat ti!

Bu sawl emynydd yn drwm yn nyled Williams Pantycelyn, ac felly hefyd, mae'n ymddangos, y bardd talcen slip hwnnw o Nantgarw, oherwydd fel hyn y canodd Pantycelyn rywdro ar ôl iddo fethu dihunof forwyn:

Rwy'n awr yn gweld yn eglur
'Tai clychau mawr y llan,
A rhod y felin bapur
A gyrdd y felin ban,
A'r badell fawr a'r crochan
Yn twmblo dros y tŷ,
A'r gwely'n torri dani,
Mai cysgu wnelai hi.

(gw. Gomer M. Roberts, *Y Pêr Ganiedydd*, cyf. 1, 1949, t. 194). Y tro cyntaf i Gomer Roberts sylwi ar y pennill hwnnw mewn print oedd yn 1863, ond gan mai dyn anllythrennog oedd Edwart Tomos, mae'n debyg mai tynnu a wnaeth ar ryw ffurf ar bennill Williams a oedd wedi treiglo i lawr ato ar lafar. Ond wrth gwrs, yn hytrach na benthyca oddi wrth Williams, y mae'n bosibl fod Williams Pantycelyn ac Edwart Tomos ill dau, yn annibynnol ar ei gilydd, yn tynnu ar fformiwla a oedd ar led yn gyffredin mewn penillion llafar gwlad.

Fe ddywed Dr Menna Davies yn ei thraethawd doethuriaeth mai Tomos Hywel Llywelyn oedd "tribannwr enwocaf y Rhondda, a Morgannwg hefyd, yn ddiau, ddiwedd y ddeunawfed ganrif ac yn ystod hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg"; ond "hyd y gwyddys", meddai, "nid ysgrifennodd ... ddim o'i dribannau ar glawr" (tt. 52-3). Ond er nad ysgrifennodd ef hwy ei hun, bu mwy o ysgrifennu amdano ef ac o gofnodi ar ei waith nag odid yr un o'r tribanwyr eraill a enwyd. Ceir erthygl sylweddol arno gan Tom Jones, Trealarw, yn *Y Llenor*, XVIII (1939), tt. 242-54 (sy'n cynnwys, ymhlith nifer dda o'i dribannau, ei driban yng nghystadleuaeth yr "wbwb" fwy neu lai fel y'i cofnodwyd gan Nathan Wyn); a cheir sôn amdano hefyd gan William James ("Gwilym Iago") yn *Wyth-ar-bugain o Hen Gymeriadau Hynod Cwm y Rhondda* (1905, tt. 6-7; gan Thomas Yorath ("Tawenog") yn *Clychau'r G. nydd* (d.d.), tt. 4-6; gan Thomas Williams ("Brynfab") mewn teipysgrif yn dwyn y teitl "Hen Arferion Cwm Rhondda" ymhlith llawysgrifau Llyfrgell Dinas Caerdydd (C.3.737), tt. 29-32, 37-8; gan Owen Morgan Morien yn *Hanes Tonyrefail* (1899), tt. 87-8, 90; a chan H.T. Jacob mewn erthygl yn *The Ocean and National Magazine*, 1:5 (Awst

1928), tt. 137-9 (sef cylchgrawn yr "Ocean Coal Co., Ltd." a'r "United National Collieries, Ltd.", a argraffwyd yn Nhonypanyd), ac yn y gyfrol *Atgofion H. T. Jacob* (1960), tt. 45-6. Cadarnheir ei safle ymhlith y tribanwyr eraill sydd dan sylw yma gan y ffaith fod deg triban o'i waith yng nghasgliad Tegwyn Jones, *Tribannau Morgannwg* (1976), o'u cymharu â thri o waith Siams Cefn Tylcha ac un yr un o waith Evan Moses a Job Morgan. (Hoffwn fanteisio ar y cyfle i ddiolch yn y fan hon i Mr. Tegwyn Jones am ddarllen yr erthygl bresennol mewn teipysgrif.)

Mae'n amlwg fod Tomos Hywel Llywelyn a Siams Cefn Tylcha yn gyfeillion agos, a cheir sôn yn aml am ymrysona rhyngddynt ar fesur triban. Yn erthygl Tom Jones, Treallaw, yn *Y Llenor*, cofnodir nid yn unig dribannau ymryson rhwng Tomos a Siams, ond hefyd rai rhwng Tomos ac Evan Moses. Yng nghyfrol Taliesin Morgan, *History of Llantrisant* (1898), tt. 98-9, wedyn, cofnodir tribannau a luniwyd ar achlysur arbennig, nid yn unig gan Tomos a Siams, ond hefyd gan Job Morgan. Mae hyn oll yn tanlinellu'r ffaith fod y pedwar tribannwr yn perthyn i'r un frawdoliaeth farddol. Ac i bwysleisio hynny ymhellach eto, ceir cyfeiriadau at y pedwar ohonynt yng nghyfrol enwog William Thomas ("Glanffrwd"; 1843-90), *Llanuwyno*, a gyhoeddwyd gyntaf yn gyfres o ysgrifau yn *Tarian y Gweithiur* yn 1887.

Yng nghyfrol Glanffrwd, neilltuir rhai tudalennau i bortreadu Job Morgan y Teiliwr, a gadwai dafarn Brynffynnon ger Eglwys Wynno, ac meddai Glanffrwd amdano:

Yr oedd triban mor hawdded i Job ag anadlu ... Yr wyf yn ei gofio yn dda - yn hen ŵr, a'i wallt fel gwlân y ddafad wen, yn hongian yn gudyndau hirion o gwmpas ei aelïau, ac yn disgyn ar ei war ... Gwnâi darlun o Job Morgan y tro yn iawn yn lle Derwydd, ond rhoddi hen delyn Gymreig yn ei ddwylo, a chael awel dyner y gallasai ei wallt gwynlaes nofio arni yn ysgafn (arg. 1949, tt. 171-2).

Rhaid fod cystadleuaeth tribannau'r "wbwb" wedi creu cryn argraff ar gof gwlad, oherwydd rhydd Glanffrwd - a oedd yntau, gyda llaw, yn un o "Glic y Bont" - gryn le iddi wrth sôn am Job Morgan (tt. 173-4):

Yr ydwyf yn meddwl fod Job yn un o'r cystadleuwyr yng nghystadleuaeth hynod Triban yr "Iwb-wb." Nid wyf yn cofio ym mha le y cyfarfyddai y prydychion yn y gystadleuaeth honno, ond bu mawr sôn amdani am hir amser. Yr oedd Siams Gefntylcha, Llewelyn Bili Siôn, Tomos Hywel Llewelyn, a Job Morgan yn cydymgeisio, ac eraill nad ydwyf ar hyn o bryd yn gallu galw eu henwau i gôf. Meddai Siams Gefntylcha [ond Evan Moses yn ôl ffynonellau eraill],-

Mi welais farch mewn ffrwyn-grwb;
Mi welais lew mewn gwael gwb,
A dyn disynnwyr gyda'r rhain,
Gallaswn lefain Iwb-wb.

Ac meddai Job Morgan, -

Fe gwypodd Mari Rhydwb
Dros geulan serth Cwm Wb-wb,
Wrth fynd i lawr nis gallai hi
Wneud dim ond gweiddi Iwb-wb!

Yr wyf yn meddwl mai yr un a farnwyd yn orau ydoedd yr un
canlynol:-

Cant o deirw corndwb
Aeth i ymladd dwp-dwb,
A minnau'n sefyll rhwng y rhain
Fi allsw'n lefain Iwb-wb!

Nis gwn pwy oedd awdur y triban buddugol os nad Llewelyn Bili Siôn o
blwyf Ystradyfodwg ydoedd. Nid oes gennyf amcan ychwaith am y lle y
cynhaliwyd y gydymdrech dribannol hon, ond ym mhlwyf Llanwynno yn
rhywle, feddyliaf. (Blaenllechau, fel y clywais yn ddiweddar).

Fel y gwelir, awgrym Glanffrwd yw mai Llywelyn Bili Siôn yn hytrach
na Tomos Hywel Llywelyn oedd awdur y triban buddugol. Saer coed oedd
Llywelyn Bili Siôn, a drigai yn y Cwrt ger hen dafarn y Pandy yn
Nhonypandy, ac a fu farw yn 1843. Ceir peth o'i hanes gan William James
("Gwilym Iago") yn *Wyth-ar-hugain o Hen Gymeriadau Hynod Cwm y
Rhondda* (1905), tt. 8-10, a chan Thomas Morgan ac Owen Morgan
("Morien") yn *Hanes Tonyrefail* (1899), tt. 66-7, 93-4, 101-3 (lle y ceir sôn
hefyd am Job y Teiliwr, tt. 80-1, 105, a Siams Cefn Tylcha, tt. 77-80).
Awgryma Dr. Menna Davies mai ef, o bosibl, yw'r Llywelyn ab Ioan a
gyhoeddodd gasgliad o farddoniaeth o'r enw *Y Fronfraith* yn 1831, ar y cyd
ag Evan Llywelyn o'r Maerdy.

Am ryw reswm dywed Thomas Williams ("Brynfab") yn y teipysgrif
"Hen Arferion Cwm Rhondda" sydd ynghadw yn Llyfrgell Dinas Caerdydd
fod Glanffrwd yn dweud mai tribannwr o Ystradyfodwg o'r enw William
Rees a enillodd yng nghystadlaeth yr "wbwb" gyda'r triban canlynol:

Cant o deirw corndwl (*sic*)
Pob dau yn ymladd dwpdwb
A finnau'n sefyll rhwng y rhain
Pwy waeddai lai na "Iwbwb".

Nid dyna a geir gan Glanffrwd, fel y dengys y dyfyniad uchod o'i gyfrol
Llanwynno, ond y mae'n agos iawn i'r ffurf sydd ar y triban yn erthygl
Brynfab yn *Y Geninen*, 1912 (t. 67) a ddyfynnwyd uchod.

Yn yr un flwyddyn ag y cyhoeddwyd ysgrifau Glanffrwd ar
Lanwynno yn *Tarian y Gweithiwr*, cyhoeddwyd casgliad helaeth Cadrawd o
dribannau Morgannwg yn y gyfrol *Eisteddfod Genedlaethol y Cymry:
Cofnodion a Chyfansoddiadau Buddugol Eisteddfod Aberdâr, 1885* (1887).
Yn eu plith (t. 193) ceir un o dribannau'r "wbwb", neu yn gywirach ddau

hanner triban, gan ei fod yn gyfuniad o ddwy linell gyntaf triban Tomos Hywel Llywelyn a dwy linell olaf triban Evan Moses:

Mi wela's Deirw Corn-dwb,
A phob dau'n ymladd dwp-dwb,
A dyn disynwyr gyda'r rhai'n
Mi al'swn lefain lwb-wb.

Cyhoeddwyd rhai o dribannau'r "wbwb" gan Morien yn *Hanes Tonyrefail* (1899). Daethai ef ar draws llawysgrif a fu'n eiddo i Evan Llywelyn o fferm y Maerdy yng nghwm Rhondda Fach, ac a gynhwysai nifer o gerddi gan feirdd o'r cylch. Cyhoeddodd ddwy gerdd o waith Llywelyn Bili Siôn a gafodd yn y llawysgrif, a'r dyddiad 1836 wrth y ddwy (tt. 101-3). Yna, ar dudalen 104, ceir hyn:

HEN DDIGRIFWCH.

Yn yr un llawysgrifen yn yr hen lyfr caf y pethau digri a ganlyn. Y mae eu cyfansoddwyr wedi huno er's llawer blwyddyn:-
"YR IOOB-BOOB."

Cant o deirw corn dwp,
Pob dau yn ymladd dwpdwp;
A mina'n sefyll rhwng y rai'n,
Mi allsw'n lefain Wbwb!
- Twm Hywel Llywelin.

Mi welais grythor droedglwb.
A chanddo esgyd flaenglwb,
Ac hefyd ddyn yn Mychudd fain,
Mewn llif yn llefain Wbwb!
- Shams, Cefn Tylcha.

Mi welais lo mewn gwaelgwb,
A cheffyl ffol a ffrwyngrbw;
A dyn disynwyr gyda'r rhai'n:
Mi allsw'n lefain Wbwb!
- Evan Moses.

Ymddengys fod y prydyddion uchod ar gyfeddach yn Nhy'r Ffynon [sef Brynffynnon, tafarn Job y Teiliwr ger Eglwys Wynno, mae'n siŵr] ar y pryd, ac i "Wb, wb!" gael ei roddi yn destyn iddynt.

A cheir cadarnhad pellach i enwogrwydd cystadleuaeth yr "wbwb" ar lafar gwlad gan Tom Davies, Cymer, mewn erthygl ar Siams Cefn Tylcha yn ei gyfres "Rhondda 'Slawer Dydd" yn *Y Darian*, 5 Medi 1929, t. 7. (Ceir erthygl arall ganddo ar Siams yn rhifyn 15 Mai 1930, t. 3.) Dyma a ddywed

am y gystadleuaeth yn rhifyn 5 Medi 1929:

Dichon fod cystadleuaeth yr

Ioob-Boob

yn hysbys i lawer o ddarllenwyr y Darian. Pa le y cynhaliwyd y gystadleuaeth sydd bwnc amheus. Dywed rhai mai ym Mryn Ffynnon, cartref Job Morgan, y bu yr ymgyrch farddonol. Beth bynnag Siams o Gefn Tylch (*sic*) oedd un o'r cystadleuwyr peryglus. Os nad ydym yn camsynied, Twm Hywel Llywelyn gariodd y dydd. Dyma'r penillion -

Testun - "Yr Ioob-Boob.l'l

Mi welais grythor droed-glw, b,

A chanddo esgid flaen-glw; b,

A hefyd ddyd yn Mychudd fain,

Mewn llif, yn llefain - Wbwb.

- Siams Cefn Tylcha.

Mi welais lo mewn gwael-gwb,

A cheffyl ffol a ffroen-grwb;

A dyn disynnwyr gyda rhai'n,

Mi allsw'n lefain - wbwb.

- Ifan Moses.

Cant o deirw corn-dwp,

Pob dau yn ymladd dwp-dwp,

A minnau'n sefyll rhwng y rhai'n,

Mi allsw'n lefain - wbwb.

[_] Twm Hywel Llewelin.

O gymharu'r hyn a geir gan wahanol gofnodwyr tribannau'r "wbwb", gellir gweld nodweddion y traddodiad llafar ar waith yn glir - yn yr amrywiadau yng ngeiriad y tribannau eu hunain, yn y cymysgu awduraeth, ac yn y lleoli ar y digwyddiadau mewn ardaloedd amrywiol, cyfarwydd i'r cofnodydd (Ystrad Rhondda yn achos Nathan Wyn; Llanwynno yn achos Glanffrwd, Morien a Tom Davies; Pontypridd yn achos Brynfab; a Mynydd Caerffili yn achos Dr Ceinwen Thomas). Ond yr hyn sydd yn arbennig o drawiadol yw parhad y traddodiad llafar: bod tribannau a luniwyd mewn ymryson barddol mewn tafarn yng nghyffiniau Cwm Rhondda rywbryd cyn 1835, a'r rheini heb eu hysgrifennu erioed gan eu hawduron yn ôl pob tebyg, yn cael eu hadrodd mewn cyfarfod yn yr Eglwys Newydd yng ngwaelod Cwm Taf yn 1990.

Un o'r hwiangerddi a ddyfynnais yn y cyfarfod hwnnw yn yr Eglwys Newydd oedd y pennill cyfarwydd "Bachgen bach o Ddowlais". Cofia Dr Ceinwen Thomas ei hewythr yn adrodd y pennill ar yr aelwyd yn Nantgarw yn nyddiau ei phlentyndod. Dyma'r pennill yn y ffurf dafodieithol y cefais ef ganddi:

Bachan bæch o Ddywlish
Yn gwitho o flæn y tân,
Bron â thorri'i galon
Ar ôl y ferch fach læn;
'I goesa fel y pîpa,
A'i frycha fel y brwyn,
A'i ben a fel pytatan
A 'anner llæth o drwyn.

Wrth gyrraedd y llinell olaf, byddai ei hewythr yn cydio yn nhrwyn Dr Thomas a'i dynnu, ac yna yn dweud y geiriau hyn fel diweddglô: "Un glæn odd a, 'n ta fa?" (sef 'Un glân oedd e, ontife?').

Rai blynyddoedd yn ôl cefais y profiad - chwithig braidd, mae'n rhaid cyfaddef - o ddarganfod enghraifft o'r union bennill hwnnw yn parhau ar lafar yn uwch i fyny Cwm Taf. Wrth ymweld rywdro â'm rhieni yn eu cartref ym mhentref Troed-y-rhiw, ryw dair milltir i lawr y cwm o dref Merthyr Tudful, cyfarfûm â gwraig a aned tua 1920 ac a fagwyd ym mhentref cyfagos Abercannaid. Wrth fy nghlywed yn siarad Cymraeg â'n plant, yr oedd yn amlwg wedi gwirioni. Byddai ei thad wedi bod wrth ei fodd yn clywed y plant yn siarad Cymraeg, meddai, gan ei fod yn Gymro pybyr iawn. Dechreuodd adrodd pennill Cymraeg a glywsai gan ei thad ar yr aelwyd pan oedd yn blentyn. Cefais drafferth i wneud pen na chwt ohono am eiliad, ond yn fuan sylweddolais mai'r pennill "Bachgen bach o Ddowlais" ydoedd, ac mai'r hyn a gyfrifai am y dieithrwch oedd ei fod yn cael ei adrodd â chynaniad tafodieithol cryf iawn a'i fod yn cael ei adrodd gan rywun nad oedd yn deall *dim* o'r hyn a adroddai. Daeth yn eglur nad oedd y Cymro pybyr hwnnw, a fyddai wedi bod cymaint wrth ei fodd o glywed y Gymraeg ar wefusau ein plant ni, wedi llwyddo i drosglwyddo'r iaith i'w ferch ef ei hun - a hithau erbyn hynny yn teimlo'r golled yn fawr. Roedd eironi trist y sefyllfa ond yn rhy amlwg; ac yn enghraifft fyw iawn o gymhlethdod ieithyddol hynod cymoedd de-ddwyrain Cymru.

Y BYW A'R SEGUR YN *REPERTOIRES* CYNHEILIAID CANU GWERIN

Tecwyn Vaughan Jones

Hyd yn ddiweddar bu ymchwilwyr i lôn gwerin (defnyddiaf y term *llên gwerin* yma i gyfeirio at draddodiadau llafar - hynny yw *genres* megis y stori werin, y gân werin, y faled, ymadroddion ac yn y blaen) yn gweithio dan dri phennawd - casglu, dosbarthu a disgrifio (ac wrth ddisgrifio ceid ymdrech weithiau i olrhain tarddiad ambell draddodiad). Ers y 1960au bu ymdrech daer i ymadael â'r dull statig hwn a hynny yn bennaf trwy ganolbwyntio fwyfwy ar astudio cyd-destun yr eitemau llên gwerin. Rhoddwyd sylw ar astudio rôl a swyddogaeth yr eitem mewn cyd-destun ardal neu gymuned a hefyd pan yn briodol o fewn cyd-destun cymdeithasol, gwleidyddol, crefyddol a hanesyddol. Yn syml, fe symudodd y pwyslais oddi ar astudio'r testun a rhoi llawer mwy o sylw i astudio'r perfformiad yn ei gyfanrwydd gan gynnwys sgiliau cyfathrebu cludwr y traddodiad (*tradition bearer*) ac ymateb ei gynulleidfa. Credid fod canolbwyntio ar elfennau o'r fath yn fwy tebygol o arwain yr ymchwiliwr i ganfod arwyddocâd a swyddogaeth eitemau arbennig. Y duedd felly oedd cymhwyso dulliau ymchwil y gwyddorau cymdeithasol megis anthropoleg, cymdeithaseg, seicoleg a sosioieithyddiaeth i astudio *genres* llên gwerin yn hytrach na chyfyngu astudiaeth o'r rhain o fewn ffiniau dulliau beirniadaeth lenyddol draddodiadol oedd yn dueddol o ganolbwyntio'n gyfan gwbl ar y testun. Nid wyf am ddilyn y datblygiad hwn yma, ond yn sicr mae dadlau brwd o blaid y ddwy garfan ac wrth gwrs mae i'r ddwy eu rhinweddau.

Fel nifer o wledydd bychain Ewrop bu Cymru ar flaen y gad yn y gwaith o gasglu traddodiadau cynhenid. Adeiladwyd casgliadau cyfoethog o wahanol *genres* o lôn gwerin Cymru - gan unigolion yn bennaf, ond yn ystod y ganrif hon gan sefydliadau megis Amgueddfa Werin Cymru, archifau lleol a nifer o gynlluniau casglu a noddwyd gan wahanol gymdeithasau, cynghorau a sefydliadau (megis yr Eisteddfod Genedlaethol). Yn aml, craidd nifer fawr o'n casgliadau lleol a chenedlaethol yw ymdrechion casglu oes nifer o unigolion.

Cynnryrch gwaith maes yw'r mwyafrif o'r casgliadau enwocaf - casglwyd gwybodaeth oddi wrth unigolion yn werin a gwreng, rhai yn gludwyr traddodiad ac eraill yn bobl gyffredin gyda dim ond cof am ambell bwt o gân neu stori. O ystyried amlygrwydd tystiolaeth o'r fath mae'n amlwg mai ar ddull *repertoires* y cesglir y rhan fwyaf o wybodaeth. Mae'r rhain yn amrywio o unigolyn i unigolyn ac mae rhai yn disgleirio o ran amrywiaeth a chyfoeth eu cynnwys, boed hwnnw yn gasgliad o alawon gwerin neu'n gasgliad o jôcs neu ymadroddion. O ystyried mai fel

repertoires unigolion y mae'r mwyafrif o draddodiadau gwerin wedi eu casglu yn ystod y ganrif hon prin iawn fu'r ystyriaeth ohonynt fel allwedd i ddeall meddylfryd y cludwr traddodiad, disgwyliadau ei gynulleidfa a'i swyddogaeth yn y gymdeithas. Mae Kenneth S. Goldstein (Cyn-Athro mewn Llên Gwerin ym Mhrifysgol Pennsylvania) yn cynnig dull arloesol o astudio *repertoires* cludwyr traddodiad gan symud y pwyslais oddi ar astudio'r testun i ystyried swyddogaeth yr eitemau yn eu cyd-destun cymdeithasol a hefyd eu swyddogaeth ym mywyd y perfformiwr ei hun. 1. Er bod ei syniadau wedi eu crisialu o ganlyniad i'w waith casglu ymysg cantorion gwerin yng ngogledd-ddwyrain yr Alban mae ei sylwadau yr un mor briodol o ran astudio *repertoires* cantorion yng Nghymru.

Un fu'n arloesi mewn astudiaethau ar y cludwr traddodiad oedd yr ysgolhaig o Sweden, Carl Wilhelm von Sydow. Dyma un o ysgolheigion disgleiriaf y ganrif hon ym myd llên gwerin. Dechreuodd ei yrfa fel athro ysgol gynradd yn Sweden. Casglodd doreth o ddeunydd bywyd gwerin, llafar a materol, a'u cyflwyno i Brifysgol Lund yn 1913 yn sylfaen i archif werin newydd. Bu'n ddarlithydd ac Athro yn y brifysgol honno ac erbyn y 1940au yr oedd wedi ei sefydlu ei hun yn ysgolhaig cynhyrchiol. Ei brif ddiddordeb oedd astudio dulliau cyfathrebu cludwyr traddodiad. 2. O'r holl gyfraniadau a wnaeth i faes theori a bathu termau - a thrwy hynny helpu i sefydlu llên gwerin fel disgyblaeth yn y brifysgol a hynny ar seiliau academiaidd cadarn - ymysg y pwysicaf oedd ei ddisgrifiad o ddau fath o gludwr traddodiad, yr un sydd â'r traddodiad yn fyw yn y cof ac yn medru ei drosglwyddo i eraill, a'r llall â'r traddodiad yn y cof ond fod hwnnw yn segrur. Mae hyn yn ymddangos yn osodiad digon amlwg. Mae'n dweud:

"It is the active bearers who keep tradition alive and transmit it, whereas the passive bearers have indeed heard of what a certain tradition contains and may perhaps, when questioned, recollect part of it, but do nothing themselves to spread it or keep it alive.

Felly ceir dwy garfan dybiedig ymysg y werin - honno sy'n trosglwyddo llên gwerin a honno nad yw'n gwneud hynny. Wel nid yn hollol. Mae von Sydow yn esbonio ei safbwynt trwy ddweud:

Having distinguished between active and passive bearers of tradition, I do not, of course, imply any classification of the population into two classes according to their different attitude to tradition, one being passive, the other active. Among the peasantry one person may be active as regards certain traditions, and passive in respect of others, indeed entirely without certain other traditions. A carrier of tradition is thus active only as regards part of his stock, being passive in so far as perhaps the major part is concerned.

1. Goldstein, Kenneth S. "On the Application of Concepts of Active and Inactive Traditions in the Study of Repertory", *Journal of American Folklore*, 84 (1971): 62-7

2. von Sydow, C.W. "On the Spread of Traditions" *Selected Papers on Folklore*, Ed. Laurits Bodker, Copenhagen, 1948.

Fel un a fu'n gweithio yn y maes yng Nghymru am flynyddoedd hyd yn ddiweddar yn casglu atgofion a thraddodiadau, nid yw hyn yn syndod o gwbl. Wrth gasglu atgofion plentyndod roedd rhai yn medru cofio bywyd yn y capel yn berffaith ac yn medru rhoi i mi bron air am air rai o bregethau'r pregethwyr mawr, tra oedd eraill o'r un oed, a hwyrach o'r un ardal, yn cofio dim am hynny er iddynt fod yn mynychu'r capel yn rheolaidd fel plant. Ganddynt hwy hwyrach y ceid disgrifiad heb ei ail o fywyd yr ysgol yn yr un cyfnod. Nid nad oedd yr olaf yn cofio sut yr oedd hi yn y capel - roedd y traddodiad hwnnw yn *segur* yn ei gof ac un yr ysgol yn *fyw* ac felly, yn ddigon naturiol, atgofion am yr ysgol a drosglwyddai.

Trafodai von Sydow eitemau penodol o fewn traddodiad fel y maent yn ymddangos yn *repertoire* gwahanol gludwyr traddodiad. O'r holl eitemau llên gwerin y mae unigolyn yn gyfarwydd â hwy, dim ond rhai ohonynt yn unig y medrai eu perfformio neu eu datgan, a gwrthodai berfformio eitemau eraill gan honni nad yw'n gwybod nac yn medru'r eitemau hynny. Felly nid ar y *mathau* o gludwyr traddodiad y dylai ein pwyslais fod ond ar statws eitemau penodol o llên gwerin o fewn eu *repertoires*. Mae'r safbwynt hwn yn dileu'r syniad uchod fod y *uerin* wedi ei rhannu'n ddwy garfan - y rhai sydd yn medru a'r rhai nad ydynt yn medru. Ar yr un pryd, o newid y pwyslais, awgrymir dulliau newydd o ddisgrifio a dehongli *repertoires* llên gwerin gwahanol unigolion.

Tueddwn, hwyrach, ystyried fod i bob eitem o fewn *repertoire* cludwr arbennig yr un pwysigrwydd. Yn yr un modd, ar ol i'r ymchwilydd gasglu corpwys o draddodiadau oddi wrth siaradwr/canwr a ystyrid fel rhyw fath o gyfanswm, tybia hwyrach fod ei gof yn gweithio yn yr un modd ar gyfer pob eitem a bod iddynt yr un pwysigrwydd o fewn y *repertoire*. Bathodd Goldstein y term *quantitative fallacy* i gyfeirio at hyn - rhywbeth y mae'n amlwg yn ei ystyried yn gyfeiliornad.

Yn sicr pan fo maint y *repertoire* yn cael sylw arbennig, anaml y ceir cyfeiriad at arwyddocâd yr eitemau unigol ym mywyd y datgeiniad. Yn dilyn o hyn ni cheir amcan o'r sylw neu'r gwerth y mae ef ei hun yn ei roi ar y gwahanol eitemau. Dim ond pan dderbyniai'r casglwr gyflwyniad braticg o eitem arbennig gan y cludwr, tra ceir cyflwyniadau perffaith o rai eraill, y sylweddola nad yw rhai eitemau mor bwysig i'r siaradwr/canwr. Hawdd dweud fod y cludwr wedi dysgu degau o ganeuon dros gyfnod arbennig ond rhaid sylweddoli fod rhai caneuon yn golygu mwy iddo nag eraill - hwyrach oherwydd yr atgofion a ddaw yn eu sgil, eu hapêl esthetig, neu fod i rai arwyddocâd arbennig ar wahanol adegau. Mewn cyfnod arbennig ym mywyd y cludwr ceir rhai eitemau sy'n fyw rhai eraill sy'n segur. Dibynna hyn ar wahanol ffactorau sy'n dylanwadu ar ei fywyd o dro i dro ac o'r herwydd inae'r pwyslais yn newid.

Rhaid trafod y ddau gwestiwn canlynol cyn defnyddio'r perspectff hwn i astudio ffurfiant *repertoire* llên gwerin gwahanol gludwyr:

1. Pam a sut mae'r eitem lèn gwerin yn symud o fod yn fyw i fod yn segur a *vice versa* o fewn *repertoire* unigolyn dros gyfnod o amser?

2. Beth yw'r ffactorau sy'n achosi'r newid statws hwn?

Er bod y broses dan sylw yn effeithio ar bob eitem o lèn gwerin mae'n haws ateb y cwestiynau uchod trwy ystyried un *genre*, caneuon gwerin yn yr achos hwn. Amlygir sawl patrwm wrth ystyried y symudiad o fyw i segur:

1) *Sefydlogrwydd*. Mae rhai caneuon yn cael eu perfformio yn syth wedi iddynt gael eu dysgu ac maent yn aros yn barhaol yn rhan fyw o'r *repertoire*.

2) *Byrhoedledd*. Perfformir rhai caneuon yn syth ar ôl eu dysgu, ond atyniad dros dro ydynt, ac unwaith eu bod wedi chwythu eu plwc, diflanna i'r *repertoire* segur.

3) *Adfywiad*. Mae rhai caneuon yn cael eu perfformio yn syth wedi iddynt gael eu dysgu, yna yn symud i'r *repertoire* segur, ond yn cael eu dyrchafu yn ddiweddarach i'r *repertoire* byw. Hwyrach y digwyddai hyn dro ar ôl tro yn ystod bywyd y canwr.

4) *Gobiriad*. Nid yw rhai caneuon yn dod yn rhan o'r *repertoire* am gyfnod wedi iddynt gael eu dysgu.

Beth sy'n achosi i gân fod yn fyw neu'n segur ar gyfnod arbennig? (A chymryd fod y canwr eisoes wedi dysgu'r gân.

1) *Perchnogaeth a Hunaniaeth*. Mewn cymuned neu deulu lle cysylltir cân arbennig ag unigolyn penodol, hwyrach y byddai cantorion eraill yn swil o berfformio'r gân honno o barch neu ofn y *perchennog* a chan gredu hwyrach nad oedd modd iddynt berfformio cystal. Tebyd fod cantorion eraill yn gwybod y gân yn iawn, ond mae'n aros yn segur yn eu *repertoires* nes fod y perchennog yn marw, yn gadael y gymuned, neu heb ei chanu am beth amser. Wedyn byddai canwr arall yn codi'r gân, hwyrach flynyddoedd wedi iddo ei dysgu gyntaf (h.y. gohirio ei pherfformio) a thrwy fynych befformio'r gân deuai ef yn *berchen* ami.

2) *Amserol*. Cyfyngir ystyr rhai caneuon i adegau neu achlysuron arbennig. Pan fo testun cân yn amherthnasol deuai'n segur. Hwyrach fod y canwr yn dysgu cân sy'n protestio yn erbyn rhyw orthrymder a ddaeth i'w ran fel unigolyn neu ar ei gymuned neu ei genedl. Cyhyd â bod y gorthrymder yn parhau yna mae'r gân ei hun yn berthnasol. Unwaith mae hwnnw wedi ei godi tuedda'r gân fynd yn segur (dyma'r *byrhoedledd* uchod). Petai gorthrymder tebyg yn digwydd eto yna adfywir y gân i'r *repertoire*. (Dyma'r adfywiad uchod).

3) *Chwaeth as Estheteg*. Tuedda'r rhain gael eu mabwysiadu yn gynnar yn mywyd y canwr ac maent yn annhebygol o newid trwy gydol ei oes. Tebyg fod y caneuon a ddysgwyd yn ystod y broses o gymdeithasoli yn aros yn ffefrynnau ac anaml y gwelir y rhain yn mynd yn segur (enghraifft o'r patrwm sefydlogrwydd uchod). Hwyrach y byddai caneuon a ddylid, ar y olwg gyntaf, fod yn segur oddi mewn i'r *repertoire* gan nad yw eu testun bellach yn berthnasol i brofiad byw y canwr a'i gynulleidfa, aros yn fyw

oherwydd eu bod yn apelio at chwaeth ac estheteg y canwr.

Yn ystod ei oes daw'r canwr o dan amrywiol ddylanwadau cerddorol a diwylliannol sy'n debygol o effeithio ar ei chwaeth a'i estheteg. Fe'i cyflwynir, drwy'r cyfryngau torfol, i ddulliau cerddorol newydd ac felly i nifer o ganeuon newydd. Hwyrach y byddai'r canwr am addasu'r "hen" ganeuon yn ei *repertoire* i gyd-fynd â dulliau cerddorol newydd - neu ei fod am gyflwyno caneuon newydd sbon i'w *repertoire*. Mae'n debyg y byddai'r caneuon hynny yn aros yn barhaol yn ei *repertoire* os bydd ei chwaeth yn aros yr un fath o hynny ymlaen (*sefydlogrwydd*). Os yw'n gwrthod y dulliau newydd (*byrhoedled*) medrai ddychwelyd i'r hen ganeuon yr arferai eu canu cyn iddo gael ei ddenu gan y dulliau newydd (*gobiriad*).

4) *Rôl Gymdeithasol a Hunaniaeth*. Os yw canwr yn cysylltu cân arbennig gyda grwpiau sydd â'u hunaniaeth yn dibynnu ar oed, rhyw, gwaith, neu grefydd byddai fel rheol yn gollwng y gân hon o'i *repertoire* pan fyddai'n colli cysylltiad â'r grwpiau hynny. Tuedda plentyn, er enghraifft, beidio â chanu caneuon chwarae plant pan dyfa yn oedolyn (*byrhoedled*). Pan ddeuai'n rhiant yn nes ymlaen, ac yn ddiweddarach yn daid neu'n nain, hwyrach y byddai'n ailgydio yng nghaneuon ei blentyndod a chaneuon eraill sy'n difyrro plant i ddifyrru ei epil (*adfywiad*). Fel y tyfai'r rheini a cholli diddordeb yna bydd y caneuon perthnasol yn dychwelyd unwaith eto i fod yn segur yn ei *repertoire*.

5) *Newid neu Golli Cynulleidfa*. Pan nad oes bellach gynulleidfa ar gyfer rhai caneuon yn *repertoire* y canwr mae'n peidio â'u canu. Byddai gwas ffem, er enghraifft, yn peidio â chanu caneuon llofft stabal unwaith ei fod wedi symud i'r dref i weithio - gan gadw'r rhai masweddus hwyrach! Mae'r caneuon llofft stabal yn rhy esoterig, ac yn amherthnasol i brofiad beunyddiol yn y ddinas, ond hwyrach y byddai'r rhai masweddus yn dal i gydio a difyrro cyfeillion gwryw yn y dref fel yn y wlad.

Hwyrach y bydd newidiadau technolegol yn diddymu neu'n newid oriau hamdden gan effeithio ar batrwm y perfformio. (Weithiau'n ei ddileu yn gyfan gwbl). Sylweddola'r cludwr oedrannus nad oes amser gan ei gynulleidfa arferol i wrando arno. Bydd ei gynulleidfa yn symud o'r ardal hwyrach, am resymau economaidd, ac yn yr un modd bydd y cludwr ei hun yn gorfod symud a'i gael ei hun mewn cyd-destun lle nad oes ganddo bellach gynulleidfa i fwynhau ei dalent. Yn ogystal, bydd newidiadau technolegol yn cynnig mathau eraill o ddifyrrwch cerddorol sy'n cael ei ystyried yn amgenach na'i ganu traddodiadol ef. Bydd cymdogion a pherthnasau yn troi at y teledu, y radio, neu ddisgiau yn hytrach na gwrandio arno ef.

Dylid nodi fod yr hyn sy'n gyfrifol am ddileu cynulleidfa'r canwr traddodiadol yn gallu creu cynulleidfa oedd newydd ar ei gyfer. Hwyrach y bydd canwr sydd wedi colli ei gynulleidfa ar gyfer yr eitemau hynaf yn ei *repertoire* yn sicrhau cynulleidfa newydd o fyfyrwyr ysgol a cholegau sydd wedi cael eu cyflwyno i gerddoriaeth werin trwy gyfrwng eu cysiau.

Hwyrach y caiff ei defnyddio yn ogystal i hybu adfywiad mewn canu gwerin. Fe dderbyn wahoddiadau i ganu ar raglenni arbenigol ar y radio a'r teledu, neu i ganu gerbron cynulleidfaoedd sy'n gysylltiedig â chymdeithasau arbenigol. Hwyrach y daw gwahoddiad i berfformio mewn gŵyl werin. Yn y cyd-destun hwn daw eto gerbron cynulleidfa sy'n gwerthfawrogi ei ganeuon traddodiadol fel ei gymdogion a'i berthnasau gynt tra'n gwrando arno yn ei rôl fel cludwr traddodiad yn ei gymuned.

Mae'r mwyafrif o gasgliadau llên gwerin sydd i'w cael yng ngorllewin Ewrop a Gogledd America wedi eu ffurfio ar sail recordiadau o'r hen bobl hynny a ystyrir yn hynod yn y byd modern. Yn rhy aml y bobl sydd â diddordeb yn eu caneuon a'u chwedlau yw casglwyr llên gwerin. Fel rheol, cynigir i'r casglwr yn y maes atgofion o'r dyddiau pan oedd y darnau hynny yn cael eu perfformio o flaen cynulleidfaoedd oedd yn eu gwerthfawrogi - er bod y cof am hyn, fel mae'r blynyddoedd yn treiglo, mewn perthynas â'r wir gân werin, y faled neu stori werin, yn prysur ddiflannu - yng Nghymru o leiaf. Wedi dweud hyn daw *genres* newydd i gymryd eu lle ac mae'r broses a ddisgrifir uchod yr un mor berthnasol i gludwr y gân werin ac yw i gludwr jôcs, ffraethinebau ac ymadroddion cyfoes. Mae i bob cân ei chyfnod yn *repertoire* y canwr, rhai yn parhau am bron i hanner canrif ond eraill am ychydig fisoedd yn unig. Cysylltir pob un ohonynt yng nghof y canwr â lle ac amser arbennig, ffrindiau, cymdogion neu berthnasau, profiad ysgytwol neu gyfuniad o'r rhain i gyd.

I gasglwr llên gwerin sy'n gweithio gyda phlant ceir sefyllfa debyg ond fod yr eitemau yn y *repertoire* yn wahanol. I bob un o'r plant mae pob eitem yr un mor ystyrlon mewn perthynas ag amser, lle, person neu brofiad, gyda phob eitem yn cael ei pherfformio cyn mynd yn segur.

Os am ystyried *repertoire* cludwyr traddodiadau gwerin yng ngoleuni'r uchod, dylid adolygu'r wybodaeth a gesglir oddi wrth y cludwyr. Ni ddylid bodloni ar ddarganfod ble, pryd, a chan bwy y clywodd y canwr yr eitemau sydd yn ei *repertoire*. Rhaid cofnodi pryd y perfformiwyd yr eitemau gyntaf, pryd y daeth yn rhan fyw o'r *repertoire*, am ba hyd y parhaodd felly, a pham y bu iddo ollwng yr eitemau, ailgydio ynddynt, a'u gollwng eilwaith ac yn y blaen.

Nid pet' hawdd yw sicrhau gwybodaeth o'r fath. Anaml y bydd cludwyr yn cadw trefn o'r fath ar eu cof. Amrywiol fydd yr ymateb. Dylai'r casglwr ddatblygu proses o gasglu a fyddai'n helpu'r cludwyr i ateb y cwestiynau hyn.

Yn ogystal dylid cysylltu eitemau yn y *repertoire* â hanes personol y cludwyr gan roi hwb i'w cof a sicrhau data mwy cyflawn. Yn hyn o beth gellid asesu rôl yr eitemau hyn ym mywyd y siaradwr.

BARD DREFLYS A'R PALM OIL

Tegwyn Jones

Yn y rhifyn diwethaf o *Canu Gwerin* (Cyf. 16, 1993), ceir crynhoad hwylus gan Ddafydd Ifans o fywyd a gyrfa Richard Roberts, Bardd Trefflys, a golygiad o garol blygain a gyfansoddodd ar gyfer Nadolig 1846. "Nid oes gennym, ysywaeth", meddai Dafydd, "fawr mwy na'r garol hon ac ychydig englynion mewn llawysgrif yn brawf o'i gynnyrch barddol", ac y mae hynny'n wir ar wahân i'r faled hir a ysgrifennodd dair blynedd ar ôl y garol uchod, ac a gyhoeddwyd gan Garneiddog (Richard Griffith 1861-1947) yn *Cymru* xxxviii (1910), 89. Dyma'r teitl: "Cân y Palm Oil, sef hanes llongdrylliad ar Sarn Badrig, Ionawr 19, 1849. Mae y gân hon yn cynnwys ffeithiau gwirioneddol, ac nid gwag ddychmygion". Y mae'n faled rhy faith i'w chyhoeddi yn ei chrynswth yma - saith ar hugain o benillion wyth llinell, ynghyd â llinell o gytgan ar ddiwedd pob un, sef "A glywsoch chwi erioed y fath beth?" (gydag ambell amrywiad yn y geiriau), sy'n awgrymu y bwriedid ei chanu ar alaw megis "Pray what will Old England come to" a enwir ar ambell daflen faled, ac a oedd yn ffefryn gan rai o'r baledwyr. Olew melyn trwchus, tebyg i fenyn a wneir o ffrwyth palmwydden droffannol Affricanaidd, yw'r "palm oil" y cyfeirir ato, ac fe'i defnyddid i goginio ac i wneud sebon ohono. Pan aeth llong a gludai lwyth ohono o Affrica i Lerpwl i drybini ar Sarn Badrig yn 1848, daeth casgenni lu ohono i'r lan:

 O Afon y Morfa i Gricieth.

Yn naturiol, gwelodd y trigolion lleol eu cyfle, ac am rai dyddiau a nosweithiau buwyd yn brysur iawn yn cario ac yn cuddio'r cyfryw gasgenni. Cerdd yn croniclo'r digwyddiad hwnnw yw eiddo Bardd Trefflys, ac yn ceryddu'r ardalwyr am fod mor barod i ddwyn eiddo arall:

 Aeth llawer o hono i'r Penrhyn,

 Ac aml i gwdyn i'r Garn,

 Ac felly y cadd ei wasgaru,

 Doedd odid i dŷ nad oedd darn.

 A glywsoch chwi erioed y fath beth?

Yr oedd mwy nag un defnydd y gellid gwneud ohono, mae'n amlwg:

 Roedd mab rhyw hen wreigan yn cario,

 A hithau'n ei guddio'n ei gardd,

 Dywedai nôl iddi ei ganfod

 Mai present oedd, hynod o hardd;

 "Mi ddioddais i lawer o brinder

 Am fraster i wneud kannwyll frwyn,

 Ond heno mewn digon o lawnder,

 Bendith Duw it, fy ngwas, am ei ddwyn".

 A glywsoch chwi erioed y fath beth?

Ceisiodd rhai guddio'r olew mewn gwahanol gilfachau o gwmpas eu tai a'u tyddynnod rhag i swyddogion y doll alw, ond yn aml iawn yr hyn a ddigwyddodd, yn ôl y gerdd, oedd bod ambell gi, ac weithiau fochyn, wedi dod ar ei draws, a chael gwledd annisgwyl. Daeth aelodau o bob enwad ynghyd i geisio gael eu pump ar yr olew, ac y mae'r bardd yn canmol yr undeb a welwyd yn eu plith ar yr achlysur - "Sandeman Batis", "Wesley", Bedyddiwr dihalog", "rhyw Fethodistyn",

Roedd hefyd Ddisenter, gwyh seintyn,
Ddydd Sul oedd yn adrodd ei Salm,
Nos drannoeth yn dwyn gyda'i gydyn,
Roedd hwnnw yn felyn o falm.

Ond y diwedd fu, yn wyneb bygythiad yr awdurdodau, i'r rhan fwyaf o'r trigolion ddychwelyd y cyfan neu ran o'u hysbail:

Daeth rhai ar ôl iddynt gael rhybudd
A'r cwbl yn ufudd yn ôl,
A'i addef yn weithred anweddaidd
A hynod o ffiaidd a ffôl;
Roedd hefyd mewn dychryn gryn lawer
Yn anfon yr hanner yn rhwydd,
Er fod amynt gywilydd eu gweled
Yn myned, gan saled y swydd.

Un wreigan a ddywedai yn addfwyn -
"Da'i byth eto i ddwyn doed a ddêl",
A'i anfon yn ôl yn ddiwrw
Wnaeth Jinw rhag myned i'r jêl ...

Ac yr oedd hynny i gyd wrth fodd calon Bardd Treflys, oherwydd yn y pennill olaf un fe'i ceir yn pwysleisio

... mai nid i warthruddo
Neu dduo fy nghenedl mae 'nghân,
Na phrofi f'awenydd o anian,
Na dangos fy hunan yn lân;
Ond rhybudd yw hyn yn ystyriol,
A roed yn rhyfeddol o fwyn,
Rhag myned - gael inni bawb ochel -
Yn gyhoedd neu ddirgel i ddwyn.

Llwyddodd yn ei amcan hefyd yn ôl tystiolaeth Carneddog mewn troednodyn i'r gân. "Gwnaeth y gân felodaidd, naturiol, a doniol hon lawer i ddeffro cydwybod gwlad", meddai, "ac i ddangos mai lladrad yw lladrad. Hanner can mlynedd i eleni yr oedd Cymru'n wlad grefyddol, ond yr oedd heb ddysgu rhai pethau pwysig". Yn yr un troednodyn, dywed Carneddog iddo godi'r gerdd o lawysgrif nai'r awdur "y diweddar Thomas Williams ... Bootle". Bymtheng mlynedd yn ddiweddarach, yn Eisteddfod Genedlaethol

Pwllheli 1925, gofynnwyd yn y Rhestr Testunau am “Gasgliad o Hen Faledi a Cherddi unrhyw ardal yng Nghymru”. Y beirniad oedd J.H. Davies, Prifathro Coleg Aberystwyth ar y pryd, a dyfarnodd ef y wobr i gasgliad a anfonodd Carneddog i'r gystadleuaeth - casgliad swmpus o 304 o gerddi (llawysgrif LlGC 7326E yn y Llyfrgell Genedlaethol bellach) gan awduron a chanddynt ryw gysylltiad neu'i gilydd â Beddgelert a'r cyffiniau, ac yn eu plith y gerdd uchod o waith Bardd Treflys. Cyhoeddodd Carneddog y rhan fwyaf o'i gasgliad buddugol yn ei gyfrol *Cerddi Eryri*, 1927, ond, oherwydd ei meithed mae'n debyg, nid yw “Cân y Palm Oil” i'w gweld yno.

ADOLYGIAD

Dafydd Ifans

Rhian Davies, Yr Eneth Ddisglair Annwyl/Never So Pure a Sight - Morfydd Owen (1891-1918) Ei Bywyd mewn Llundain/A Life in Pictures (Llandysul, 1994) xxviii, 136 tt. Pris: £8.75. ISBN: 0 86383 936 3.

I'r Cymro cyffredin, mae'n debyg bod enw'r gyfansoddwraig Morfydd Llwyn Owen (1891-1918) yn gyfystyr â'r gân enwog 'Gweddi y Pechadur' a'r emyn-dôn 'Penucha'. Yn y gyfrol hon fe gawn gyfle i ymgydnabod yn drwyadl a hanes y ferch ifanc, dalentog a fu farw mor annhymig a hithau ar ganol ei hugeiniau. Cyfrol yw hon ar ddull y gyfres boblogaidd 'Bro a Bywyd', lle ceir bywgraffiad darluniadol o'r gwrthrych.

Y mae Rhian Davies, golygydd y gyfrol, yn amlwg yn ymchwilydd wrth reddf ac wedi troi pob carreg fach a mawr i ganfod y deunydd amrywiol sydd wedi ei gadw am hanes Morfydd Owen. Llwyddodd, drwy olrhain disgynyddion y teulu, i ddarganfod cyfoeth o ddarluniau sy'n gyfrwng i adrodd hanes y gyfansoddwraig yn ôl i'w gwreiddiau yn sir Drefaldwyn ac yna ymlaen drwy gyfnod ei phlentyndod yn Nhrefforest a Phontypridd i'w chyfnod yn fyfyrwr is-raddedig yng Nghaerdydd ac wedi hynny yn Llundain, ac ymlaen i gyfnod ei bywyd priodasol anodd gyda Dr Ernest Jones a'i marwolaeth annisgwyl ym Mhenrhyn Gŵyr ar 7 Medi 1918.

O ddiddordeb i ddarllenwyr *Canu Gwerin*, ceir pennod yn dwyn y teitl 'Alawon Gwerin', lle dangosir mai Mrs Ruth Lewis, ail wraig John Herbert Lewis, a gyneuodd ddiddordeb Morfydd mewn canu gwerin. Treuliodd Morfydd gyfnodau tuag 1913 yn adysgrifo llawer o'r alawon gwerin a gafodd eu casglu gan Ruth Lewis. Pan ymddangosodd cyfrol Mrs Herbert Lewis, *Folk-Songs Collected in Flintshire and the Vale of Clwyd*, yn 1914 cafodd Morfydd Owen gydnabyddiaeth deilwng ar yr wyneb-ddalen am drefnu cyfeiliant yr alawon ar gyfer y gyfrol. Perfformiwyd rhai o'r caneuon hyn gan Morfydd yn Eisteddfod Genedlaethol Y Fenni ar 6 Awst 1913. Bu Morfydd hefyd yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd o Gymdeithas Alawon Cymru, fel yr un a gynhaliwyd yn Notting Hill Gate, Llundain, ar 12 Mehefin 1914. Un o'r datgeiniaid eraill yn y cyfarfod hwnnw oedd Miss Dora Rowlands, Mrs Dora Herbert Jones wedi hynny, a bu hi'n rhannu llwyfan cyngerdd a darlith gyda Morfydd yn aml.

Yn rhaglen pentymor yr Academi Frenhinol yn Neuadd y Frenhines, Llundain, ar 14 Gorffennaf 1914, perfformiwyd cathl symffonig (*tone-poem*) o waith Morfydd am y tro cyntaf. 'Morfa Rhuddlan' oedd teitl y gwaith a seiliwyd yn gyfan gwbl ar yr alaw werin o'r un enw. Dywed Rhian Davies am 'Morfa Rhuddlan': "y mae dawn Morfydd i drosglwyddo nodweddion

cerddoriaeth werin ddilys Gymreig i'w chyfansoddiadau gwreiddiol yn cyrraedd ei hanterth yn y gwaith hwn." Un o'r offerynwyr a gymerodd ran yn y perfformiad cyntaf o 'Morfa Rhuddlan' a llawer o weithiau eraill Morfydd oedd neb llai na Syr John Barbirolli a oedd yn astudio'r sielo yn yr Academi tua'r un cyfnod.

Y mae'r gyfrol hon yn llawn ffeithiau diddorol am gyfnod yn hanes cerddoriaeth Cymru sydd bellach yn perthyn i'r gorwel a'r gwyll. Ceir yma gyfraniad gwir werthfawr i astudiaethau traddodiad cerddorol Cymru ar ddechrau'r ugeinfed ganrif. Rhaid canmol Rhian Davies yn wresog am baratoi cyfrol amheuthun yn damaid i aros pryd, hyd nes y gwelir cyhoeddi cofiant llawn i'r gyfansoddwraig ddawnus ganddi maes o law.

HELA'R DRAENOG

Dyma deitl recordiad diweddaraf Robin Huw Bowen, sef casgliad o gerddoriaeth sipsi Gymreig ar y delyn deires, a ymddangosodd 11 Mai eleni. Dewiswyd y dyddiad am ei fod yn ganmlwyddiant marw John Roberts, 'Telynor Cymru', gor-wyr i Abram Wood, y Sipsi cyntaf i ddod i Gymru erioed.

Daeth John yn un o delynorion Cymreig blaenllaw ei ddydd. Dysgodd ei holl blant i chwarae'r delyn a'r ffidil, a chyda'i naw mab ffurfiodd fand llinynnol o'r enw 'The Original Cambrian Minstrels', a fyddai'n teithio o gwmpas Cymru i berfformio. Daeth yn ffigur adnabyddus yn yr Eisteddfod a chylchoedd diwylliedig cymdeithas, a bu ef a'i feibion yn perfformio o flaen y Frenhines Victoria pan ymwelodd hi â Chymru yn 1889.

Mae'r recordiad yn cynnwys un trac ar ddeg, rhai alawon wedi'u diogelu gan Eldra Jarman, rhai wedi'u haddasu o berfformiadau gan Nansi Richards, a'i disgybl Llio Rhydderch, a rhai o ffynonellau llawysgrif. Y mae un trac wedi'i neilltuo i ddatganiad ffliwt gan Ann Morgan Jones o "Copenhagen Waltz". Ymhlith yr alawon eraill a glywir y mae amrywiaeth o bibddawnsiau, polca a waltz, ynghyd â chyfres o alawon Cymreig o lawysgrifau Nicholas Bennett, ond wedi'u cael gan John Roberts. Mae hwn yn gasgliad difyr a deniadol sy'n haeddu pob cefnogaeth.

Hunting the Hedgehog - the gypsy harps of Wales is a new recording of Welsh gypsy music played on the triple harp by Robin Huw Bowen. It is a varied collection of hornpipes, waltzes and Welsh airs, many taken from the manuscripts of John Roberts of Newtown, great-grandson of Abram Wood, the first Gypsy to come to Wales. A number of the airs have been preserved by Eldra Jarman, herself a descendant of John Roberts, while others are derived from the playing of Nansi Richards and her pupil Llio Rhydderch. This delightful compilation is much to be welcomed.

Hela'r Draenog/Hunting the Hedgehog. Robin Huw Bowen. CD Teires RHBCD002, £9.99; caset Teires RHBT002, £6.75.



John Roberts, y Drenewydd

'Telynor Cymru'
1816 - 1894

TEYRNGED

Myra Rees

Ystrydeb, fe ddywedir, yw sôn am ardal gyfan yn galaru o golli unigolyn, ond yn achos ambell enaid prin, y mae'n wir. Un felly mae'n siŵr oedd Myra Rees, a fu farw 29 Rhagfyr 1993 yn 82 oed. Yr oedd y dyrfa fawr a ddaeth i'w hangladd yng nghapel Penuel, Casllwchwr, yn tystio i'r parch a'r serch oedd iddi yn y cylch. Merch ei bro oedd Myra, a thrwy ei gwaith yn dysgu ac yn hyfforddi dros gyfnod maith cyfrannodd yn hael at fywyd y fro honno. Am flynyddoedd bu Parti Llwchwr yn serennu ar lwyfan eisteddfod a chyngerdd, a chenedlaethau o blant wedi bod yn rhan o'r gweithgarwch. Cafodd sawl unigolyn talentog ddechreuad da gan Myra, gan gynnwys Jennifer Evans Clarke, ac aelodau o deulu dawnus O'Neill.

Byddai'n selog yng nghyfarfodydd y Gymdeithas hon, bob amser yn llawen ei gwedd ac yn barod ei chwerthin. Ac er iddi, yn gwbl haeddiannol, ennill Medal Syr Thomas Parry-Williams yn Eisteddfod Abertawe yn 1982, a chael ei dyrchafu'n Is-lywydd yn ein cymdeithas ni ddeng mlynedd yn ddiweddarach, nid oedd dim a rôl fwy o foddhad iddi na chlywed "Y wobr gyntaf i Barti Llwchwr" unwaith yn rhagor.

Y mae'n cydymdeimlad yn fawr â'i merched Margaret a Meinir. Y mae'n diolch hefyd yn fawr, am ei llafur godidog a diflino, ac am yr hyfrydwch o gael ei hadnabod.

Rh.G.

**Ancient National Airs
of
Gwent and Morganwg**

**Casgliad Maria Jane Williams
gyda rhagymadrodd a nodiadau
gan Daniel Huws**

**Adargraffiad clawr meddal
o'r gyfrol bwysig a gyhoeddwyd
gyntaf yn 1988**

**£8:50
AR GAEL YN FUAN**

CYMDEITHAS ALAWON GWERIN CYMRU

A garech chi ymuno â Chymdeithas Alawon Gwerin Cymru? Neu, os ydych eisoës yn aelod, beth am ddarbwylllo rhywun arall i ymuno?

Sefydlwyd y Gymdeithas yn 1908. Ei phwrpas yw casglu a pherfformio caneuon gwerin Cymru, cyhoeddi enghreifftiau dethol ohonynt, a hybu ymchwil, yn llenyddol a cherddorol, yn y maes hwn. Erbyn hyn ymddangosodd dros ddeg rhifyn ar hugain o'i Chylchgrawn, gan gynnwys ymron 600 o ganeuon. Yn flynyddol er 1963, ac ym mis Medi, cynhaliwyd cwrs penwythnos o ddarlithiau, trafodaethau a chanu.

Y tanysgrifiad blynyddol yw £4 i oedolion, £6 i wŷr a gwragedd ynghyd, a £1 i blant a myfyrwyr, sy'n sicrhau copi o *Canu Gwerin*, cylchgrawn blynyddol y Gymdeithas. Ein Hysgrifennydd Aelodaeth yw: Rhidian Griffiths, Ynys Ceti, Penrhyn-coch, Aberystwyth, Dyfed. Ffôn: (0970) 828683.

THE WELSH FOLK-SONG SOCIETY

Would you like to join the Welsh Folk-Song Society? Or, if you are already a member, why not persuade someone else to join?

The Society was established in 1908. Its aims are the collection, preservation and performance of Welsh folk-song, its publication, and the encouragement of related research work. By today, over thirty numbers of its Journal have appeared, including almost 600 songs (nearly all of them with Welsh-language texts). Annually since 1963, and usually in September, the Society has held a weekend course of lectures, discussions and song.

The annual subscription is £4 for adults, £6 for husbands and wives jointly and £1 for children and students, which secures a copy of Canu Gwerin/Folk Song, the annual journal of the Society. Our Membership Secretary is: Rhidian Griffiths, Ynys Ceti, Penrhyn-coch, Aberystwyth, Dyfed. Tel: (0970) 828683.

Dyblygion

Canu gwerin

Folk song.